

LLAIS

Pererindodau'r Haf

Bu dwy o eglwysi'r cwm ar deithiau nodedig yn ystod y misoedd diwethaf. Teithiodd Capel yr Alltwn i Soar y Mynydd ym mis Mehefin a Chapel y Nant, Clydach ddiwedd Awst i Frycheiniog gan olrain hanes y diwygiwr Methodistaidd Howell Harris.

Cynhaliwyd oedfa, dan ofal y Parchg Gareth Morgan Jones, cyn dychwelyd i'r Plough, Rhosmaen ar gyfer swper.

I waelodion Brycheiniog teithiodd Capel y Nant, dan arweinyddiaeth Robat Powell, ar Awst 31. Yn Aberhonddu cawsant gyfle i addoli yng nghapel

hanesyddol y Plough yng ngofal y Parchg Mike Hodgson. Aethant ymlaen i Eglwys Talgarth a'r man lle newidiwyd bywyd Howell Harris yn 1735 ac yna i Drefeca, pencadlys y Diwygiwr a'i 'deulu' lle bu'n 'ysgwyr Cymru i'w seiliau'. Cawsant gyfle hefyd i ymweld â Llyn Safaddan, Llangors a rhyfeddu at olygfeydd y Mynyddoedd Du 'eraill', a braf oedd ciniawa yn Aberhonddu ar y ffordd adre.



Soar-y-Mynydd

Ymunodd aelodau Soar-Maesyrhaf, Castell-nedd â Chapel yr Alltwn wrth iddynt deithio drwy Frynman a chroesi'r Mynydd Du. Mor drawiadol wahanol oedd caeau glas dyffryn Tywi i gymoedd diwydiannol Aman, Tawe a Nedd. Wedi seibiant yn Llanymddyfri ymlwybro hyd hewlydd cul blaenau'r Tywi nes cyrraedd Soar y Mynydd, addoldy mwyaf anghysbell Cymru.



Eglwys Talgarth

Llais

Y mae'n rhyfedd fel y gall ambell i olygfa greu argraff annileadwy yn y cof. Yn ystod yr haf hwn cafwyd nifer o olygfeydd gwrthgyferbynnol: y lleddf a'r llon. Gwelsom olygfeydd arswydus ar y teledu ac yn y newyddion a fu'n gyfrwng i'n sobri; dro arall gwelsom rai a fu'n gyfrwng i'n llawenhau ac yn gordial i'r ysbryd.

Wrth dystio i ddigwyddiadau erchyll yn y byd yn enwedig yn ngwledydd Iraq a Syria, a'r Wcrain, tristawn yn ddirfawr wrth dystio i greulondeb dyn tuag at gyd-ddyn. Y geiriau a ddaw i'r meddwl wrth ysgrifennu hyn o golofn yw'r rhai o eiddo Hedd Wyn:

Gwae fi fy myw mewn oes mor ddreng
A Duw ar drai ar orwel pell:
O'i ôl mae dyn, yn deyrn a gwreng,
Yn codi ei awdurdod hell.

Tystiwn fod y geiriau hyn yr un mor berthnasol heddiw â phan y'u hysgrifennwyd gan mlynedd yn ôl. Do, buwyd yn cofio cychwyn Rhyfel Mawr 1914-18 yn ystod mis Awst. Gwnaed hynny mewn llawer man ac mewn sawl rhaglen deledu gydag urddas ac anrhydedd Tynnwyd sylw at ebyrth y miloedd ar filoedd o wŷr ifanc a gollodd eu bywydau yn y cyfnod hwnnw. Rhyfel i ddileu pob rhyfel oedd y rhyfel honno i fod. Ond fel y prawf hanes, fel arall y digwyddodd. I mi golygfa i'w chofio oedd gweld cofeb Gymreig yn cael ei dadorchuddio ym mhentref Langemark yn Fflandrys gan brif weinidog Cymru, Carwyn Jones. Cromlech o gerrig o chwarel Craig yr Hesg ger Pontypridd ydyw, gyda draig goch enfawr wedi gosod arni. Ffrwyth blynyddoedd o godi arian ydoedd gan ymgyrchwyr a deimlai bod angen cofeb i'r Cymry ifanc a fu farw dros eu gwlad. Rhyfedd meddwl y bu'n rhaid aros gan mlynedd cyn i unrhyw gofeb gael ei chodi i'r milwyr hyn.

Gyda llaw, ym mynwent Artillery Wood yn Langemark, y mae bedd Hedd Wyn ei hunan a fu farw o'i glwyfau ar ôl brwydr enbyd Passchendaele yn 1917. Cofiaf imi a'r teulu - tra'n crwydro gwlad Belg rai blynyddoedd yn ôl - geisio dod o hyd i fedd 'y bardd trwm dan bridd tramor.' Er chwilio a chwilio am bron i ddiwrnod ni lwyddwyd i ddod o hyd iddo gan fod cymaint o fynwentydd milwrol yn yr ardal. Doedd neb yno i'n cyfarwyddo. Fodd bynnag, bydd y gofeb o'r Ddraig Goch ar y gromlech yn sicr o ddynodi bod rhan o Gymru yn awr yn Fflandrys. Rhydd gyfle i bawb - yn deyrn a gwreng - a fydd yn ymweld â'r wlad o hyn ymlaen i werthfawrogi'r aberth mawr a wnaed gan gymaint o Gymry ifanc.

Rhaid troi at olygfeydd mwy llawen. Gwelwyd digon ohonynt yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yn Llanelli. Fe'n gwefreiddwyd gan gyfraniad y bobl ifanc. Yn fy marn eisteddfod y do ifanc yn anad dim oedd Eisteddfod Sir Gâr. Gwelwyd egni a brwdfrydedd ieuencid y sir ar ei orau mewn sawl cystadleuaeth, cyngerdd a sioeau cofiadwy. Does dim rhyfedd fod un bardd wedi crybwyll:

Onid nwyd ein ienctid ni
Enillodd yn Llanelli?

Ond yr olygfa a erys yn hir yn fy nghof oedd sefyll ar fryncyn gerllaw maes yr Eisteddfod yn gwyllo seremoni'r Orsedd fore dydd Gwener. Roedd yr Orsedd wedi ymgynnull yn ei holl liwiau trawiadol. Gwefreiddiol oedd cclywed yr utgryn yn atseinio tros fae Caerfyrddin. Gwnaeth yr olygfa ryfeddol hon argraff fawr ar nifer o ymwelwyr Seisnig oedd yn crwydro heibio'r fangre ar y pryd. Yn y seremoni hon yr anrhydeddwyd Mrs Anita Humphries, teipyddes a gosodwr y LLAIS am flynyddoedd lawer. Fe'i hanrydeddwyd am ei gwasanaeth diflino i fywyd Cymraeg ardal Brynman. Llongyfarchiadau mawr iddi.

Dyma ni ar drothwy tymor yr hydref. Diau mai'r tymor amryliw hwn o aeddfedu a rydd inni olygfeydd i'w cofio. Nid oes gwell adeg i deithio trwy Cwm Tawe na phan fydd dail y coed yn newid eu lliw. "Marw i fyw y mae'r haf o hyd," meddai Bardd yr Haf, R. Williams-Parri, ac wrth dystyriedd hynny yr hydref hwn, nac anghofiwn am y rhai a fu farw dan amgylchiadau erchyll rhyfel er mwyn sicrhau ein bod ni heddiw yn cael y rhyddid i fyw a mwynhau golygfeydd digymar byd natur.

Euros Jones Evans

GAIR O DDIOLCH

A gaf i ddiolch i'r holl bobol hynny a wnaeth fy llongyfarch ar y ffôn neu wyneb yn wyneb gan ddymuno'r gorau am i mi gael fy nerbyn i Orsedd y Beirdd - Gwisg Lâs yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr yn ystod mis Awst.

Cefais y fraint yma gan i mi deipio Papur Bro Cwm Tawe - y *Llais* - am tri deg o flynyddoedd. Bûm yn aelod o Gôr Eisteddfod Dinefwr 1996, ac Eisteddfod Abertawe 2006. Bum yn aelod o Gôr Disgyblion a Rhieni Ysgol Gyfun Ystalyfera yn Eisteddfod Genedlaethol Castell-nedd yn 1994. Bûm yn aelod o Gôr Cymysg Brynman o'r dechrau nes iddo ddod i ben rai blynyddoedd yn ôl.

Yr wyf wedi bod yn ysgrifennydd Cymdeithasau Capeli Brynman sawl gwaith, ac yn nawr yn Ysgrifennydd Eglwys Ebeneser Brynman ers dros dair blynedd ar ddeg.

Felly diolch i chwi un ac oll am eich geiriau caredig.

Anita



Golygydd mis Medi
Gwenno Ffrancon

Newyddion i'r canlynol os gwelwch yn dda:

Anita Humphreys
Castell Newydd, Heol Aman,
Brynman, Rhydaman, SA18 1SN

neu e-bost arfryn@freenetname.co.uk
Erbyn *Medi 20fed 2014* os gwelwch yn dda.

Y *Llais* yn Trydar ac a'r We

Dilynwch y *Llais* ar Twitter a'r We

Chwiliwch am @PapurBroLlais ac fe gewch y newyddion diweddaraf o Gwm Tawe, hanes digwyddiadau yn yr ardal a gwybodaeth am y papur bro ei hun. Croeso i chi hefyd rannu eich newyddion gyda'r *Llais* fel y gallwn ei drydar i Gymru a'r byd!

Mae gan y *Llais* wefan lle dangosir hen rifynnau. Teipiwch *Llais Cwmtawe* yn y peiriant chwilio.

CYFARFOD BLYNYDDOL Y LLAIS

Nos Fercher, 24 Medi am 6.30

Canolfan y Groes, Pontardawe

Croeso i Bawb

Ariennir *Llais* yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

POBOL Y CWM

Hefina Phillips

Pan ddeallwyd mai brodor o Gwmtawe, o bentref Cwmgiedd, oedd Arweinydd y Cymry ar Wasgar yn Eisteddfod Sir Gâr yn Llanelli ym mis Awst, a'i henw Hefina Phillips (Jones gynt) merch y ddiweddar Carrie May ac Edgar Jones (Edgar ap Lewys, Caemawr) penderfynwyd ei gwahodd i edrych yn ôl ar ei bywyd yng Nghwmgiedd a thu hwnt i America a Chanada. Fe gofiwn amdani yn cario'r Corn Hirlas yn Eisteddfod Genedlaethol Ystradgynlais yn 1954. Dyma Hefina:



"Yng Nghwmgiedd y ces fy magu - y pentre bach tlysa yng Nghwmtawe yn fy amser i. Pentre bro yn gyfangwbl uniaith Gymraeg ar wahan i un teulu di-Gymraeg. Bues i'n lwcus dros ben i gael fy nghodi mewn cartre oedd yn parchu a chefnogi'r Gymraeg a'i diwylliant. Roedd fy nhadcu, Hywel y Wen, yn fardd o fri ac yn hyddysg yn y Cynganeddion. Roedd fy nhad, Edgar Caemawr, yn Bleidiwr tanbaid a doedd neb yn cael siarad Saesneg yn ei tŷ ni.

Es i Ysgol Cynlais, ac wedi llwyddo'r Arholiad Scholarship ymlaen i Ysgol Maesydderwen. Nawr roedd rhaid cael beic! Allwn i ddim mynd i Ysgol Maesydderwen heb feic! Yno agorwyd drysau eraill. Anghofia i byth mo'r wers Ffrangeg gynta a chwmpo mewn cariad nid yn unig a'r iaith ond hefyd a'r athro (Mr Evans). O ran chwaraeon hoci oedd popeth - rown i'n dwlu ar y gem. Yno hefyd y gwnes ffrindiau am oes, a hyd heddiw dw i'n cadw mewn cysylltiad a nifer oedd yn yr un dosbarth a fi. Prifysgol Caerdydd oedd nesa gan astudio Cymraeg, Ffrangeg a Saesneg. Cymraeg oedd fy mhrif bwnc. Yn ein dyddiau ni, cymharol fach oedd y brifysgol, ac roedd hi'n hawdd dod i nabod nifer o bobol tu fas i'n hadran ni. Y fraint fwya oedd cael yr enwog Saunders Lewis yn athro am flwyddyn. Am ddylanwad!

Ar ôl priodi aeth gwaith y gŵr a ni o un lle i'r llall, a wir ro'n i'n teimlo fel sipsiwn hanner yr amser. Bu Sian 'fy merch, bron a chael ei geni yn Amsterdam, ond llwyddes i ddod nôl i Gymru mewn pryd iddi gael ei geni yn Nhreforys! Yn Lloegr y cafodd fy mab, Alun, ei eni, ond Cymro i'r carn yw e. Yn 1981 symudon ni i Toronto yng Nghanada, a syndod oedd darganfod fod cymuned Gymraeg/Gymreig sylweddol yno, gan gynnwys Eglwys Gymraeg Dewi Sant. Yno fe dafles fy hunan i mewn i'r "pethe": dysgu dosbarthiadau Cymraeg, dysgu yn yr Ysgol Sul, canu (yn Gymraeg) mewn cor o'r enw Merched Dewi, dysgu ar Gwrs Blyneddol Cymdeithas Madog - aelod o Fwrdd Gŵyl Gymreig Ontario, ysgrifennu erthyglau ac ati.

Yn 1993 bant a ni i America, ac yn Atlanta, Georgia, y bues i'n byw am ddeng mlynedd. Roedd Cymdeithas Dewi sant fach, weithgar yn Atlanta. Dechreuwyd côr bach ac yn ein tŷ ni cynhaliwyd yr ymarferion a'r holl bartion. Yn y cyfamser torrodd y briodas a nol a fi i Ganada lle roedd Sian, Alun a'u teuluoedd yn byw, ac erbyn hyn roedd pedwar o wyrion 'da fi. Alastair Huw sy' nawr yn 16, Megan 14, a'r efeilliaid Rhys a Morgan sy'n 13. Ar hyn o bryd does dim munud sbar. Mae'r "pethe" yn mynnu llawer o fy amser. Dw' i'n para i ddysgu dosbarthiadau Cymraeg a chynnal gweithdai; rwy'n aelod o nifer o bwyllgorau "Cymreig" yng Nghanada ac yn yr Unol Daleithiau. Mae cadw drysau Eglwys Gymraeg Dewi Sant ar agor yn mynd a llawer o'm

syllw ac amser. Bues i'n lwcus iawn i gael gwahoddiad i ddysgu Cymraeg i Ddechreuwy'r ym Mhrifysgol Toronto - gwaith pleserus dros ben. Does braidd diwrnod nad wy'n siarad Cymraeg gyda rhywun neu'n danfon ebost neu ysgrifennu erthygl yn Gymraeg.

Dw i'n dod nôl i Gymru mor am lag y galla'i, o leia unwaith y flwyddyn, weithiau fwy. Wrth reswm mae pethau wedi newid, rhai er gwell ac eraill yn bendant ddim, ac un o'r pethau mwya trist i fi yw fel mae Cwmgiedd a'r Ystrad wedi newid. Nawr dim ond Saesneg wi'n clywed ar y stryd. Cwmpwl o flynyddoedd yn ôl pan sylweddolles mod i'n nabod neb na neb yn fy nabod i, na dim Cymraeg i'w glywed ar y stryd, es i'n syth lan i'r fynwent yng Nghwmgiedd, eistedd ar fedd fy rhieni a chael "wep". Ond mae nifer o bethau eraill wedi gwella, ac er gwaetha diffyg yr iaith ar y stryd yn yr Ystrad, bach iawn o Saesneg sy rhaid i fi siarad pan wi gatre. Er bod ni heb ennill y frwydr eto, mae llawer mwo o bobl yn ymladd dros ein hetifeddiaeth, a dyma'r bobol wi'n cymdeithasu a nhw.

Roedd hi'n dipyn o sioc gael cynrychioli'r Cymry dramor, a meddylies y byddai siarad ar eu rhan o lwyfan yr Eisteddfod adeg y Gymanfa yn gyfle i mi ofyn i Gymru am help gydag un o'r pethau sy'n peri gofid i mi, sut i godi statws Cymru a'r iaith Gymraeg dramor. Mae Iwerddon a'r iaith Wyddeleg y cael cymaint o sylw a chefnogaeth o gymharu a'r Gymraeg. Mae gwledd o lenyddiaeth a hanes gyda ni, ac mae'n hiaith ni yn llawer mwy llewyrchus na'r Wyddeleg. Mae'n amlwg bod eisiau i Gymru farchnata'n gwlad, ein hiaith a'n diwylliant yn well. Pan ro'n i yn ifanc roedd pawb yn ymwybodol bod rhaid ymladd dros yr iaith. Dyna oedd adeg Cymdeithas yr Iaith ac roedd pobol yn barod i ymdrechu ac aberthu er mwyn sicrhau bod plant Cymru yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dwy'n pwysleisio nad yw'r frwydr drosodd, a bod rhaid para i ymdrechu ac ymladd dros ein hawliau a'n breintiau." Diolch Hefina, a phob dymuniad da a phob llwyddiant ar eich ymdrechion i ledænu'r Gymraeg dros yr lwydd.

John Evans

S4C

Clwb
12.30
7 Medi

Cyflro byw, uchelbwyntiau a threfod. Llond gwlad o chwaraeon mewn un lle.

s4c.co.uk

S4C Clwb

COF Y CWM

Steven Thompson

Misoedd cyntaf y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghwm Tawe

Erbyn heddiw, yr ydym yn llawn sylweddoli pa mor waedlyd, blinedig a hir oedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Dyma, honwyd, oedd 'y rhyfel i orffen pob rhyfel' a chreithiodd gymdeithas, diwylliant a phobl Prydain am genedlaethau i ddod. Ond ym mis Awst a mis Medi 1914, wrth gwrs, nid oedd gan bobl y Deyrnas Unedig a Chwm Tawe wir syniad o beth fyddai canlyniadau'r blynyddoedd nesaf. Roedd ofn yn eu calonnau, yn bendant, ond ansicrwydd, efallai, oedd yr emosiwn mwyaf cyffredin.

Cyngor y llywodraeth i Brydain oedd i gario ymlaen, i sicrhau 'busnes fel arfer', ac nid oedd llywodraeth y Blaid Ryddfrydol, dan arweiniad Herbert Asquith, yn awyddus i ymyrryd yn yr economi i'r un graddau ag y gwnaeth y llywodraeth a ffurfiwyd gan Lloyd George yn ddiweddarach yn ystod y rhyfel. Ond, wedi dweud hynny, nid oes lle i gymryd yn ganiataol bod bywyd yn y cwm wedi aros yr un fath ar ôl cyhoeddi rhyfel â'r Almaen ar y 4ydd o Awst. Yn wir, newidiodd bywydau beunyddiol pobl yr ardal yn sylweddol yn ystod wythnosau a misoedd cyntaf y rhyfel.

Tra gohiriwyd digwyddiadau amrywiol, gan gynnwys ocsynau ac achlysuron chwaraeon, a chipio ceffylau bonedd y cwm ac eraill, megis Cymdeithas Gydwethredol Pontardawe, gan yr awdurdodau, y newid amlcaf oedd sefydlu canolfannau recriwtio yn y cwm. Cafodd y Neuadd Gyhoeddus yng Nghlydach, y Neuadd Eglwys yng Ngwaun-Cae-Gurwen, a'r Institiwt ym Mhontardawe eu defnyddio i'r perwyl hwn a gwirfoddolodd niferoedd mawr yn ystod yr wythnosau cyntaf. Gadawodd nifer fawr o weithwyr tun gwaith Gilbertson ym Mhontardawe a gweithwyr nicel y Mond yng Nghlydach i ymuno â'r lluoedd arfog, yn enwedig ar ôl i'r ddau gyflogwr addo cadw swyddi'r dynion a wirfoddolai ar agor tan iddynt ddychwelyd o'r rhyfel; gwirfoddolodd 170 o weithwyr y Mond erbyn canol mis Awst, er enghraifft. Yn aml iawn, trefnwyd achlysuron gan gymunedau er mwyn anfon y gwirfoddolwyr hyn yn llawen ar eu taith.

I'r rhai a arhosodd yn y cwm, cafodd dechreuad y rhyfel effaith ar eu hamodau byw yn yr wythnosau cyntaf wrth i'r economi ymateb i ansicrwydd y sefyllfa ryngwladol. Yn y diwydiant glo, er enghraifft, roedd disgwyliad y byddai'r angen am lo yn cynyddu'n fawr iawn oherwydd y rhyfel ond roedd y farchnad yn ddirwasgedig ar y pryd ac roedd llawer o byllau glo a melinau tun ar stop ac, o ganlyniad i hyn, roedd y rheilffyrdd yn dioddef hefyd. Yn hwyr ym mis Awst, er enghraifft, roedd 1,000 o weithwyr Gilbertson ym Mhontardawe yn gadael y cwm ac yn mynd i Gwm Rhondda yn y gobaith y byddai gwaith ar gael iddynt yno ble roedd y farchnad am lo stêm yn fwy iachus na'r un am lo carreg.

Oherwydd yr ansicrwydd, roedd cannoedd o lowyr yn yr ardal yn gweithio dau neu dri diwrnod yr wythnos yn unig gan fod y cwmniau glo'n awyddus i gadw'r gweithwyr yn barod ar gyfer amseroedd gwell gan felly rannu'r gwaith rhyngddynt i gyd yn lle diswyddo rhywfaint a chadw gweithlu llai. Dioddefodd y diwydiannau trwm lleol yn ystod wythnosau cyntaf y rhyfel oherwydd yr ansicrwydd a'r anhrefn ond gwelodd yr economi rywfaint erbyn diwedd mis Awst wrth i'r economi ganolbwyntio ar gwrdd ag anghenion newydd Prydain dan amodau rhyfel

Cafodd yr ansicrwydd economaidd effaith arall wrth i bryderon gynyddu dros y cyflenwad bwyd. Cyngorodd y papurau newydd lleol, fel y gwnaeth yr awdurdodau ar draws Prydain, y dylai'u darllenwyr beidio â chynhyrfu ac na ddylent brynu mwy o nwyddau yn y siopau nag arfer neu dynnu'u harian allan o'r banc. Mewn ymateb, caeodd holl siopau *Home and Colonial* ar ddydd Llun a dydd lau bob wythnos er mwyn osgoi'r prynu gwyllt a fyddai'n gyrru prisiau'n uchel. Roedd rhai siopwyr eraill, yn enwedig yn Ystalyfera, wedi gweld eu cyfle, er hynny, ac wedi codi eu prisiau'n fawr iawn, er gwaethaf beirniadaeth lem yr awdurdodau a'r papurau lleol.

Roedd arwyddion eraill bod yr ofn a'r ansicrwydd yn cael effaith ar feddyliau pobl. Roedd jingoistiaeth a senoffobia yn bresennol yn y cwm i raddau, a drwgdybiaeth tuag at Almaenwyr. Roedd hyn yn fwyaf amlwg yn yr ymateb i Hans Schaus, dyn trin gwallt o'r Wern, Ystalyfera. Almaenwr a ymgartrefodd yn Ystalyfera bedair blynedd cyn dechrau'r rhyfel ar ôl iddo briodi menyw leol. Gwnaeth ymdrech i fod yn rhan o'r gymuned yn y Wern, lle'r oedd ef a'i wraig yn aelodau o'r Eglwys Gynulleidfaol Saesneg ac yn berchenogion busnes yn y pentref ond, er gwaethaf hyn, daeth yn darged i ddynion ifanc senoffobig a alwodd yn ei siop gan ei gyhuddo o fod yn elyn. Rhybuddiodd y papur lleol y 'ruffians' hyn i roi chwarae teg i'r Almaenwyr yn eu plith.

Arwydd arall o'r ofn a effeithiodd ar feddyliau pobl yn y cyfnod cynnar hwn oedd y sion ym mis Awst bod dŵr yng nghronfa dŵr Crai, a gyflenwai Gwm Tawe, wedi'i

wenwyo, tra chafodd dyn a oedd yn cerdded yn dawel drwy'r Alltwn ei gyhuddo o fod yn ysbïwr o'r Almaen – er, yn dilyn gwneud rhywfaint o ymholiadau, fe gytunwyd mai Sais ydoedd! Roedd trigolion yr Alltwn yn amlwg wedi dychryn yn fawr ac wedi troi'n baranoaidd iawn, i'r fath raddau nes y cafwyd un diwrnod ar ddiwedd Awst, sion fod awyren Almaenaidd yn hedfan uwchlaw'r pentref a'i bod ar fin bomio'r lle. Ond, unwaith eto, roedd y sion yn ddi-sail.

Heblaw'r ymatebion dramatig hyn, roedd rhai gweithgareddau llawer mwy synhwyrol yn cael eu cyflawni hefyd, yn enwedig gan fenywod y cwm. Yn dilyn y traddodiad a oedd mor amlwg yn y blynyddoedd a'r degawdau cyn 1914, roedd menywod yn weithgar iawn yn y mudiadau gwirfoddol, dyngarol a oedd yn ceisio gwneud bywyd yn haws neu'n well. Ffurfiwyd pwyllgorau newydd, neu trodd pwyllgorau eraill i ganolbwyntio eu hymdrechion ar amodau newydd y rhyfel ac i gyfrannu at yr ymdrech rhyfel yn gyffredinol.

Ffurfiwyd pwyllgorau, er enghraifft, yn enwedig gan wragedd diwydiannwyr ac aelodau o'r dosbarth canol yn yr ardal, i drefnu gwasanaethau nyrsio ac ysbytai i dderbyn milwyr a oedd wedi'u hanafu. Mewn ffordd arall, ffurfiwyd grwpiau o fenywod a oedd yn gweu sanau a chrysau i'w hanfon at y milwyr yn Ffrainc. Galwodd Ada Lloyd, Plas Cilybebyll, ar fenywod Pontardawe i wirfoddoli ac i helpu i greu iwnifformau ar gyfer aelodau Mintai Cymorth Gwirfoddol (*Voluntary Aid Detachment*), corfflu a oedd yn derbyn menywod i'r lluoedd arfog mewn rolau cynorthwyol. Gwirfoddolodd un fenyw, Mrs Conybeare, yn Neuadd yr Eglwys yng Nghlydach, i wneud sanau a dillad eraill fel y gwnaeth hi yn ystod Rhyfel Y Crimea yn y 1850au.

Felly, er gwaethaf y syniad o 'fusnes fel arfer', ymatebodd pobl Cwm Tawe i'r sefyllfa yn y dyddiau a'r wythnosau yn dilyn dechreuad y rhyfel ar 4 Awst 1914 ac fe newidiwyd eu bywydau beunyddiol mewn ffyrdd eithaf annisgwyl. Fel y gwyddom ni erbyn hyn, wrth gwrs, roedd llawer gwaeth ar fin dod i ran trigolion y cwm, fel yng ngweddill y Deyrnas Unedig, gan nad oedd holl erchyllterau'r rhyfel wedi dod yn amlwg iddynt yn y dyddiau cynnar hynny.



CORNEL NATUR

Dewi Lewis

TWMPATHAU!

Nodwedd amlwg ar hyd llethrau bryniau Cwm Tawe yw twmpathau'r Morgrug Melyn (Yellow Meadow Ant). Er eu bod yn nodweddion amlwg yn y tirlun prin bod llawer yn rhoi unrhyw sylw iddynt. Mewn sawl ardal, er enghraifft, llethrau Craig y Pal (y Glais) a Mynydd Garn Fach (Felindre) ceir rhai cannoedd o'r twmpathau yn creu tirlun trawiadol sydd wedi datblygu dros ddegawdau neu efallai ganrifoedd.

Canlyniad llafur oes i genedlaethau o forgrug melyn yw'r twmpathau yma. Mae pob twmpath yn gartref i oddeutu 8,000 - 14,000 o forgrug. Mae llonyddwch yn hollol angenrheidiol i ddatblygiad y twmpathau. Ni cheir twmpathau o'r fath mewn ardaloedd sydd yn cael eu rheoli nac mewn ardaloedd lle mae erydu neu gywasgiad trwy gerdded neu foduron. Mae pob twmpath yn gynefin ecolegol bwysig ynddo'i hun.

Ffurfir pob twmpath gan nythfa neu gymuned o forgrug-gweithwyr hyd at 5mm o faint sydd yn palu gronynau o bridd o dan yr wyneb wrth iddynt greu orielau. Fel arfer oriau'r nos yw oriau'r gwaith er y ceir rhywfaint o weithgaredd yn ystod y dydd. Gronyn wrth ronyn mae'r gweithwyr yn adeiladu'r twmpath ac yn sicrhau fod y fframwaith yn cael ei gynnal. O ganlyniad dim ond pridd mân ysgafn heb unrhyw gerrig sydd yn ffurfio'r twmpath. Ceir rhai twmpathau sydd hyd at fedr o uchder ond tua hanner medr ydynt ar gyfartaledd. Gellir amcangyfrif oedran y twmpath drwy fesur y maint uwchben y pridd. Mae pob litr o bridd yn cyfateb i flwyddyn o lafur.

Oddi mewn i'r twmpath ceir rhwydwaith o orielau - lle mae'r morgrug yn gofalu am yr wyau a'r morgrug ifanc nes iddynt dyfu'n oedolion. Prif bwrpas y twmpath yw sicrhau gwres oddi wrth yr haul. Mae'r pridd mân yn ei dro hefyd yn gymorth i gadw'r gwres o fewn y twmpath a rheoli'r lleithder. Fel arfer fe fydd y morgrug aeddfed yn symud y rhai ifanc o fewn y twmpath er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwres gydol y dydd trwy ddilyn llwybr yr haul.

Am gyflenwad o fwyd mae'r morgrug yn ddibynol ar bryfaid glas (aphids) sydd yn byw ar wreiddiau planhigion. Yn wir maent yn "ffermio'r" pryfaid yn union fel y byddai dyn yn ffermio anifeiliaid at ei ddefnydd ei hun. Enw llafar gwlad ar y pryf glas yw "buwch y morgrug" oherwydd bod y morgrug yn godro'r melwlith (honeydew) allan ohonynt. I raddau helaeth mae'r morgrug melyn a'r pryfaid glas yn ddibynol ar eu gilydd i sicrhau eu bodolaeth. Mae'n rhyfeddol meddwl bod metropolis forgrugaidd yn bodoli tu mewn i bob twmpath. Bydd y morgrug yn amddiffyn y twmpath rhag unrhyw forgygyn dearth. Hyn sydd i gyfrif bod pellter penodol rhwng pob twmpath neu mi fyddai'n rhyfel parhaus rhwng y twmpathau.

Unwaith y flwyddyn yn ystod mis Gorffennaf neu Awst pan fo hi'n drymaidd ceir rhai miloedd o forgrug yn hedfan i'r awyr. Bydd yr heidiau yma yn cynnwys sawl brenhines a morgrug gwryw aeddfed. Unwaith bydd y frenhines wedi cymharu fe fydd yn bwrw ei hadenydd ac yn sefydlu twmpath neu nythfa newydd. Bydd y frenhines "newydd" yn gallu dodwy hyd at 100 o wyau bob awr a fydd yn sicrhau digon o weithwyr i sefydlu tiriogaeth a dechrau ar y dasg o adeiladu twmpath.

Mae'r twmpathau yma yn gyflenwad bwyd pwysig i'r Gnocell Werdd (Green Woodpecker). Amcangyfrif bod 80% o ddeiet y gnocell yn cynnwys morgrug yn ystod y gaeaf. Yn aml gellir gweld olion y gnocell ar y twmpathau lle meant wedi twrio i mewn.

Cyn gorffen un gair o gyngor. Os ydych yn digwydd cerdded mewn ardal lle mae twmpathau morgrug peidiwch da chwi a meddwl bod y twmpath yn lle cyfleus i gael seibiant a mwynhau disgled a brechdan. Buan iawn y sylweddolwch eich bod yn amharu ar fywyd beunyddiol y morgrug wrth i ddegau ohonynt "ymosod" arnoch. Da chwi gochelwch y twmpath !



Cnocell Werdd

GWYLIAU A FFEIRIAU LLEOL

Yn dilyn gŵyl a ffair Pontardawe ym Mehefin a effeithiwyd gan law trwm cynhaliwyd gwyl lwyddiannus ar gae Waverley, Clydach dan nawdd y Cyngor Cymuned. Dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor fentro ar ddigwyddiad mor uchelgeisiol. Prynwyd pebyll a gwahoddyd mudiadau ac unigolion lleol i osod byrddau er mwyn gwerthu nwyddau a chynnyrch. Bu'n ddiwrnod braf ar gyfer sioe gwn a chyfle i anrhegu'r trigolion lleol am eu hamdrechion garddio.



Enillydd y gystadleuaeth "ci yn debyg i'w berchennog" yng Ngŵyl Clydach

Ddydd Sadwrn cyntaf Medi cynhaliwyd sioe 'Calon y Cwm' ar gaeau Glanrhyd, ger Ynysmeudwy. Gareth Davies, Gellinudd yw'r prif drefnydd ac ar ddiwrnod braf Haf Bach Mihangel gwelwyd anifeiliaid y fferm: moch, defaid Balwen, ceffylau gwedd, gwartheg coch, da godro ac arddangosfa gneifio. Uchafbwynt y sioe oedd Hywel Davies a'i hwyaid yn cael eu corlannu gan ei gi 'defaid'. Roedd degau o stondinau yn gwerthu nwyddau a chrefftau, yn ei plith Glyn Davies, Rhos a'r stondin 'Mel Cymru'. Mae ganddo gychau gwenyn ar lethrau mynyddoedd March Hywel, y Gwrhyd ac Alltgrug.



Gareth Davies, Gellinudd



Glyn Davies, Rhos a'i gwch gwenyn



Y ci yn corlannu'r hwyaid

ABER-CRAF

SEFYDLIAD Y MERCHED

Ar Orffennaf 12fed bu'r aelodau yn dathlu diwedd y tymor yn mwynhau prydiau blasus yn y 'Chameleon', Ystradgynlais. Hefyd ar Awst 1af yn mwynhau pryd yng nghaffi 'Changing Seasons', Craigygnos.

Bu'r aelodau ar wibdaith ddirgel, yn gyntaf i Oakchurch ger Hwlfordd ac wedyn ymlaen i 'Hill Top Bop' i weld adar ysglyfaethus, yn agos i Ross. Ar y ffordd adre fe fwynhaodd pawb de a theisen yn y Beaufort Arms yn Raglan. Diolch i Mrs Elizabeth Tyler am drefnu'r achlysur.

MARWOLAETHAU

Bu farw Mrs Margaret Jones, gynt o'r Wenallt ond yn byw am flynyddoedd yn Gorseinon. Cydymdeimlwn â'i gŵr Robert, ei merch Stephanie, ei mab yng nghyfraith Phillip a'i hŵyr Harri. Hefyd ei brawd Alun Williams a Cynthia a'r teulu i gyd.

Bu farw Graham Watkins, Penrhos ond gynt o Tanyrallt. Roedd Graham yn aelod poblogaidd o Gôr y Gyrlais ac yn weithgar iawn drostynt. Cydymdeimlwn â'i ferched a'r teulu a hefyd â'i frodyr Gwyn, Douglas, John a David Nigel.

Cydymdeimlwn â theulu'r ddiweddar Mrs Brenda Phillips, Heol Tawe a fu farw mis Gorffennaf. Cofiw'n am Dewi ei gŵr, Malcolm ei mab a'r teulu i gyd.

Cofiw'n hefyd am Gerwyn Lewis, Hen Neuadd, ac fe gydymdeimlwn gyda'i blant a'i ferch yng nghyfraith Rosanna.

Bu farw Douglas Gwilym, Coelbren, gŵr Hetty a thad David a Cathy. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

Hefyd bu farw Gwyn Edwards, Heol Tawe, yr olaf yn y pentre fu yn yr Ail Ryfel Byd. Roedd Gwyn yn mynd allan i Ffrainc yn aml i gymryd rhan yng ngwasanaethau cofio D-Day. Cydymdeimlwn â'i wraig Freda, ei ferched Delyth ac Alison, ei chwaer yng nghyfraith Marion a'r holl dylwyth.

PRIODAS

Fe briododd Catrin, merch Delyth ac Eamonn Hosford, Heol Tawe â Steffan mab Lynda a Kenneth Rock, Cwmbran. Mae Catrin yn ymarfer Radiofeddygaeth gyda'r cleifion cancr yn Ysbyty Singleton ac mae Steffan yn athro. Daeth Gethin, ei brawd, adref i'r briodas ac mae'n mynd yn ôl i Woolongong yn agos i Sydney lle mae'n gweithio fel meddyg yn Adran Anafiadau yn yr ysbyty leol.

Y BATWN – SEFYDLIAD Y MERCHED

Fe ddechreuodd dathliadau canmlwyddiant (Ionawr 1, 2014) i'r aelodau ymhob man gyda thraith y batwn hyd a lled y Deyrnas Unedig. Roedd y batwn wedi cael ei lunio yn arbennig ac fe gychwynodd yn Sir Fôn lle roedd y cyfarfod cyntaf o'r Mudiad yn y wlad hon wedi cwrrd yn 1915. Fe fuodd yn teithio rhwng 69 undeb yn Lloegr, Cymru a'r ynysoedd i ddathlu'r cysylltiad cyfeillgar yn y gymuned drwy waith y mudiad. Bydd yn gorffen ei daith yn y Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd Albert ym Mehefin 2015.

Ar Awst 15 fe gasglodd yr aelodau o flaen y ffynnon tu allan i Gastell Craig y Nos i ganu Jeriwsalem yn Gymraeg. Wedyn fe drosglwyddwyd y baton ac ar ôl canu Jeriwsalem eto, y tro hwn yn Saesneg fe dynnwyd nifer fawr o luniau. Yna aeth y Merched at y llyn cyntaf yn y parc lle cafodd y batwn ei estyn o law i law i bawb. Yn dilyn, fe fwynhaodd y cwmni De Fictoraidd yn y Caffi 'Changing Seasons'.

Ar ddydd Sul, Awst 17, cynhaliwyd gwasanaeth yn Eglwys Gadeiriol Aberhonddu i Undeb Sefydliad y Merched Powys/Brycheiniog i gysegru'r batwn.

Bydd y tymor newydd yn dechrau dydd Gwener Medi 5 yn y Neuadd Les am hanner awr wedi dau. Mae croeso cynnes i bawb i ymuno.

YSTRADGYNLAIS

CÔR DATHLU MEIBION CWMTAWE – CYNGERDD BLYNYDDOL GYDA *ONLY BOYS ALOUD* – YSGOL MAESYDDERWEN YSTRAD GYNLAIS HYDREF 25, 2014

Ffurfiwyd Côr Dathlu Cwmtawe ym mis Tachwedd 2011, sydd yn ei wneud y Côr Meibion iengaf y gwyddom amdano yn Ne Cymru. Y Cyfarwyddwr Cerdd yw Mr Conway Morgan a'r Cyfeilydd yw Dr David Lyn Rees. Cynhelir yr ymarferion yn Neuadd Eglwys San Cynog, Ystradgynlais sydd bron yn nghanol dalgylch y *Llais*. Llywydd cyntaf y Côr yw Dr Rowan Williams, a oedd tan yn ddiweddar yn Archesgob Caergrawnt. Pobl lleol yw'r aelodau, yn hannu o Gwmtawe, Cwmtwrch, Cwmdulais a Chwmaman, gyda rhai yn dod o Abertawe a Chastell-nedd, Port Talbot. Diddorol yw nodi hefyd bod llawer o'r aelodau yn perthyn i gorau eraill megis Cwmtwrch, Treforys, Dyfnant a Phontarddulais tra bod eraill wedi eu hannog i ail gydio yn eu diddordeb canu a dod yn aelodau o Gôr Dathlu. Er taw Côr cymharol ifanc yw Côr Dathlu, mae canran sylweddol o'r aelodau wedi bod yn canu ers pumdeg a rhagor o flynyddoedd ac yn sicr adlewyrchir eu profiad helaeth ym myd y gân yn ansawdd hyfryd eu canu.

Yn ystod tair blynedd cyntaf ei fodolaeth, mae'r Côr wedi cynnal nifer o gyngherddau yn yr ardal o Lyn-Nedd i Ystradgynlais i Bontardawe, ac hefyd mewn ardaloedd ychydig ymhellach o gartref sef yn Aberhonddu, Llandeilo, Myddfai, Llangadog, Bryncoch, Abertawe, Dyfnaint (Devon) a Windsor.

Fe gymerodd y Côr ran hefyd mewn rhaglen deledu sef Dechrau Canu Dechrau Canmol oedd yn cael ei recordio yn y Tabernacl Ystradgynlais. Cyfraniad y Côr oedd canu cân Cynog Sant, ac ymhob tebyg darlledir y rhaglen ym mis Ionawr 2015. Mae'n dda cyhoeddi hefyd bod y Côr wedi derbyn gwahoddiad i gynnal cyngerdd yng Nghapel y Wern, Ystalyfera ym mis Medi fel rhan o'u dathliadau canmlwydd a hanner.

Yng nghyngerdd blynyddol y Côr eleni yn Ysgol Maesydderwen y gwestai fydd *Only Boys Aloud* Furfiwyd *Only Boys Aloud* ym mis Mawrth 2010 er mwyn perfformio yn yr Eisteddfod Genedlaethol y flwyddyn honno. Aeth y Côr o nerth i nerth ac yn y gystadleuaeth *Britain's Got Talent* 2012, dyfarnwyd y drydedd wobwr i'r Côr.

Bechgyn ifanc o Dde Cymru rhwng 14 a 19 oed yw aelodau'r Côr, ac mae'n well ganddynt weld y Côr yn cael ei gydnabod fel OBA.

Mae'r Côr wedi ei rannu i grwpiau lleol ac mae'n nhw'n ymarfer yn bennaf mewn clybiau rygbi ar draws Cymoedd y De. Nid yn unig mae hyn yn ei gwneud hi'n rhywyddach i'r aelodau ddod at ei gilydd i ymarfer, ond mae hefyd yn fodd i greu yr ymdeimlad o hunaniaeth a balchder all fod yn fuddiol i'r cymunedau hynny lle cynhelir eu gweithgareddau.

Mae grwpiau OBA wedi eu sefydlu yn Nhreorci, Tredegar, Aberdâr, Castell-nedd, Abertawe, Cross Hands, Pen y Bont, Caerffili, Cwmbrân a Chaerdydd ac yn eu mentora nhw mae aelodau o'r Côr hynod lwyddiannus *Only Men Aloud*. Does dim dwywaith eu bod hwy wedi creu cariad at ganu yng nghalonau cannoedd o'n pobl ifanc ni. Y disgwyl yw, y bydd aelodau o dri o'r grwpiau uchod, gyda nifer ohonynt yn mynychu ysgolion yn ein hardal ni, yn cymryd rhan yn y gyngerdd ym mis Hydref

Mawr yw'r gobaith y bydd y gyngerdd a fydd yn gyfuniad cerddorol o'r ifanc a'r sawl sy'n ifanc eu hysbryd, yn aros ar ein cof am amser hir i ddod.

Am fanylion pellach cysyllter â

Mr Gerald Evans - 01639 700462/07971484047

Mr Colin Stroud - 01639 843166/07738157395

PRIODAS RHUDDDEM

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Ann a James Jenkins, 38 Maes y Cwm ar dathlu eu **Priodas Rhuddem** ar Orffennaf 20. Mae ganddynt un mab, Daniel. Mae Daniel newydd

ddydwylid o Affganistan ac mae wedi dechrau ar swydd newydd fel Rheolwr Safle yn ysbyty Glangwili a Llanelli. Mae hefyd yn *Night Nurse Practitioner*. Ein dymuniadau gorau iddo i'r dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Sioned James ar raddio o Brifysgol Caerdydd fel Deintydd Mae Sioned yn ferch i Yan ac Enfys James, Pen y Cae, ac yn chwaer i Catrin sydd yn dysgu yn Adran Gymraeg Ysgol Maes y Dderwen. Bydd Sioned yn dechrau yn fuan yn ei swydd newydd yn y Barri. Ein dymuniadau gorau iddi.

AMBIWLANS AWYR CYMRU

Cynhelir Bore Coffi yn y Neuadd Les ar fore dydd Iau, Medi 18. Bydd yno stondinau yn cynnig gwybodaeth ar ieuchyd. Bydd yr elw'n mynd at Ambiwllans Awyr Cymru. Mynediad £1 – dewch i gefnogi'r achos teilwng hwn.

PRIODAS

Ar Orffennaf 5, yn Eglwys Sant Bartholomeus, Corsham, priodwyd Christopher mab ieuengaf Marilyn a'r diweddar Lyn Thomas, Penrhos â Ruby Colomb o Gaerfaddon. Maent yn ymgartrefu yng Nghaerdydd ac yn gweithio yn yr Ysbyty Athrofaol. Ein dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Chris Thomas sydd wedi graddio o Brifysgol De Cymru mewn Gwyddoniaeth gofal dwys. Dymuniadau da iddo i'r dyfodol.

SWYDD NEWYDD

Llongyfarchiadau i Owen, mab hynaf Julie a Gary Phillips, Heol Aberhonddu ar ei swydd yn Ysgol Gyfun Ystalyfera fel Swyddog Datblygu Chwaraeon gyda Undeb Rygbi Cymru. Ein dymuniadau gorau iddo.

MARWOLAETHAU

Yn Ysbyty Cymuned Ystradgynlais ar Fehfin 22, bu farw Jean Chatham Guppy (gynt Hopton), priod Joe, mam Gary, mamgu y diweddar Lewys, merch y diweddar Dai ac Annie, chwaer, chwaer yng nghyfraith, modryb a ffrind annwyl.

Yn sydyn ar Orffennaf 1, bu farw David John Taylor, Heol Aberhonddu, priod Kay, tad Melanie, Christopher, Emma, Beverley, Tristan, Andrew a Nicola. Tadcu annwyl.

Yn Ysbyty Treforys ar Awst 3 wedi tostrwydd byr, bu farw Islwyn Jeffrey Roberts (Jeff), Heol Glantawe, priod y ddiweddar Christine, tad Alud a Geraint, tad yng nghyfraith Tracy, tadcu Branwen.

Yn dawel yn Ysbyty Singleton ar Awst 6, bu farw Edward Arnold Price, Maescynnog, priod y diweddar Doreen, tad Nigel a Rhian, tadcu Sammy, Emma, Nikki a Gareth.

Yn dawel yng nghartref Cwrt Enfys ar Awst 13, bu farw Donald Malcolm Cox, gynt o Maescynnog, priod y diweddar Joyce, tad Sandra ac Adrian, tadcu a thad yng nghyfraith annwyl.

Cydyndeimlwn yn ddwys â'r teuloedd hyn yn eu hiraeth a'u galar.

ENGLYNION COFFA ISLWYN JEFFREY ROBERTS

Heol Glantawe, Ystradgynlais

Priod y ddiweddar Christine, tad Alud a Geraint, tad-yng-nghyfraith Tracy a thad-cu Branwen.

Daw diwedd ar ein doeau heddiw

O fedd un o'r tadau

A'r gro du - ein maeddu mae

O'n bedydd trwy'n bywydau.

O ganol haf daeth gaeafau – arnom

A'i oerni'n ddiamau,

Â'i gur daeth Tachwedd i gau

Ein hoenus hindda ninnau.

Cwm o alaeth a'r cymylau – yn llwyd,
Hen gwm llwm heb wenau,
Hen gwm sydd heddiw'n llawn gwae
Yn egrwch cwm o dagrau.

Er hyn yr Ystrad sy'n parhau – yn fyw,
Er ei fedd difaddau
O alar, pery'r hwyliau
Yn haf, yn Awst o fwynhau.

Di-stop yw bwrlwm siopau – a'r hen dre'
Yn drwst o storïau
A llawn o frith gynlluniau
A gŵyl a gwaith yno'n gwau.

Ond er eu tymor gorau – er yr hwyl
Mae'r haul a'i hafddyddiau
Yn wahanol i ninnau –
A'r storm yn ein llwyr dristáu.

O un i un diwedda'n dyddiau'n – her
I yfory'r llannau,
Hen hil y Cymry'n gwanhau –
Heidiant o'n cymunedau.

Do, fe ado y fro frau – gan adael
Gwên hudol ei hwyliau,
A mwyn yn y côf y mae
Rhywsut drwy swyn yr oesau.

Ei ruddin oedd ei wreiddiau – a'i rinwedd
Sydd ym Mranwen hithau'n
Annwyl a'i hwyl yn bywhau
Â nawdd i'n holl flynyddau.

Huw Dylan, Treforys

YSTRADGYNLAIS - YSTYR YR ENW

Cyn y Chwyldro Diwydiannol, nid oedd pentref Ystradgynlais yn bod. Enw ar y ardal oedd Ystradgynlais, ac yn aml defnyddid yr enw i ddisgrifio Cwmfawe Uchaf gyfan, o'r afon Twrch yn y de hyd at y Fforest Fawr yn y gogledd. Ystradgynlais oedd enw'r plwyf hefyd, rhwng plwyf Llangiwig a phlwyf Llywel. Ar ôl gorffen adeiladu'r gamlas yn 1798 agorwyd gweithfeydd glo yng Nghwmtwrch ac Abercraf gyntaf, ac yna ardal Ystradgynlais. Deuai cannoedd o bobl i'r ardal i chwilio am waith, ac felly codwyd tai ar eu cyfer, ac adeiladwyd nifer o bentrefi newydd ar hyd y cwm. Dyna ddechreuad pentref Ystradgynlais, ond o ble ddaeth yr enw yn wreiddiol?

Mae'r enw yn cynnwys dwy elfen - ystrad a gynlais. Daw ystrad o'r gair Lladin strata, sy'n golygu gwaelod cwm. Nid cwm cul ond cwm a gwaelod llydan, gwastad lle bu rhewlif yn llifo ar un adeg. Ceir nifer o enwau Cymraeg y cynnwys ystrad, er enghraifft Ystradfelte, ac hefyd enw Lladin Strata Florida, neu Ystrad Fflur yn Gymraeg. Ceir Strathclyde i fyny yn yr Alban hefyd. Enw afon sy'n arfer dilyn y gair ystrad, ac yn wir mae nant y Gyrlais yn llifo drwy Ystradgynlais. Mae'n sicr mae Gynlais, gyda "n" oedd enw gwreiddiol y nant. Mae rhai yn meddwl mai enw person oedd Cynlais, ond does dim sicrwydd am unrhyw berson penodol o'r enw Cynlais yn byw yn yr ardal gynt.

Enw cyffredin ar nant yw'r gair clais, ac mae'n debygol mai clais/nant yw ail elfen yr enw Gynlais. Mae llawer o ddyfalu wedi bod ynghylch ystyr yr elfen gyntaf gyn neu cyn. Mae dogfennau cynnar yn sillafu'r gair mewn amrywiaeth o ffuriau – blayn cygleis (1129), Stackenles (1290), tir Aberkynleis (1510). Estradinglease (1551) ac yn y blaen. Mae Hywel Wyn Owen yn ei lyfr cynhwysfawr ar enwau lleoedd yn awgrymu mai cŷn (chisel) a clais (nant) yw gwraidd yr enw Gynlais, ond yn bersonol, rwy'n amheus gan nad oes unrhyw debygrwydd i gŷn neu gain yn y ffordd y mae'r Gyrlais yn llifo. Awgrymodd yr Athro Stephen J. Williams mai cwn (dogs) glais yw'r gair. Efallai wir. Ond, fel arfer, yr ystyr mwyaf syml sy'n debygol o fod yn gywir. Felly, dyma awgrym bersonol newydd sy'n syml iawn. Rhaid cofio mai awgrym sydd gen i, heb unrhyw brawf penodol.

Cwyd dwy nant yn agos i'w gilydd, un ar bob ochr i fynydd y Drym. Enw un nant yw Dulais, hynny yw nant ddu neu nant frwnt. Efallai bod lluwch glo ar un adeg yn trochi'r nant. Ar yr ochr arall ceir y Gynlais. Awgrymaf mai Gwyn-lais (neu efallai Gwen-lais) oedd yr enw yn wreiddiol, hynny yw, nant lân, yn wahanol i'r nant ochr draw'r Drym. Felly, enw'r gwastadedd lle mae'r Gwynlais yn llifo oedd Ystradgwynlais neu Ystradgwenlais yn wreiddiol, wedi ei fyrhau i Ystradgynlais heddiw. Ceir enghreifftiau eraill o'r un enw yn Ne Cymru, sef Tongwynlais, ger Caerdydd, lle ceir Castell Coch. A ger Llandybie ceir Pentre Gwenlais ffurf fenywaidd o glais.

Diddorol nodi yma hefyd bod enw gwahanol wedi bod ar nant y Gyrlais am gyfnod hir. Ym Mhapurau Stâd Ynysgedwyn (dogfen rhif 77) ceir "tir Owen Ychan... lying in length between the River Tawe and Blaen Nant y Pebill Bedw, and in breadth between the mansion house of Morgan Jeffreys and land of Owen John David", dyddiad 1609. Yn nogfen 82 ceir Cwm Nant Peibill Bedw (1613). Bûm yn dyfalu'n hir dros yr enw, heb unrhyw sicrwydd mai'r Gyrlais oedd Nant y Pebill Bedw. Ond daeth cadarnhad yn llyfr Theophilus Jones, ac yno ceir Nant y Pebill Bedw yn llifo o'r Drym i'r Tawe yn Ystradgynlais. Felly, rhwng 1600 a 1800, ac efallai am gyfnod hirach, rhoddwyd yr enw Nant y Pebill Bedw i Nant y Gyrlais. Wn i ddim pwy oedd yn byw yn y pebyll bedw, ond efallai daw rhywbeth i'r golwg rywbyrd eto.

CWMLLYNFELL

DIWRNOD I'R TEULU YN NEUADD CWMLLYNFELL

Ar ddydd Gwener 22ain o Awst, cynhaliwyd Diwrnod i'r Teulu yn Neuadd Cwmllynfell. Roedd y digwyddiad yn un o brosiectau Pwerdy Iaith Aman Uchaf ac ar y cyd gyda Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot a Phwyllgor y Neuadd.

Roedd y diwrnod yn llwyddiannus iawn gydag amrywiaeth o bethau i wneud gan gynnwys castell neidio, paentio wynebaw a modelu balwnau gan Amanda o 'Masquerade', crefftau, twba lwcus, cystadleuaeth gwisg ffansi ac amrywiaeth o gemau a llawer mwy! Roedd stondinau gan Partneriaith Aman Tawe, Siop Tŷ Tawe a Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot a threfnwyd raffl gan y Neuadd hefyd. Hyfryd oedd gweld cymaint o blant ac oedolion yn mwynhau eu hunain gyda dros 90 o bobl wedi mynychu'r digwyddiad. Hoffwn ddiolch i aelodau Pwyllgor Neuadd Cwmllynfell am helpu trefnu'r digwyddiad yn ogystal â'r rhai oedd wedi dod â stondinau ar gyfer y diwrnod. Diolch i bawb am eich cefnogaeth ac edrychwn ymlaen at ddigwyddiadau'r dyfodol!

DATHLU

Bu dau ddathliad yng nghartref Mr a Mrs Frank Jenkins, Heol Daniel – penblwydd Marlene yn 80 oed a phriodas diamwnt y ddau. Llonyfarchiadau.



Dymunwn yn dda i Ffion Lloyd, merch Mr a Mrs David Lloyd, Heol y Bryn, ar ennill gradd dosbarth cyntaf ym Mhrifysgol y Celfyddydau, Llundain. Ei maes arbenigol yw cynllunio esgidiau a phob lwc iddi yn ei gyrfa yn y byd datblygu a chynllunio.



Ffion Lloyd

Croeso i'r byd i ddwy ferch fach – Magi, merch i Rhys a Lucy Jones, Caerdydd, wyres i Mr a Mrs William Jones, Pen y Bryn a Tesni, merch i Dave a Miriam Thomas, Gurnos, wyres i Mr a Mrs Wendell Rosser, Pen y Bryn

Yn ystod mis Awst priododd Aled, mab Mr a Mrs Ogwyn Williams, Haris Road â Victoria Morgan o Bontardawe yn Eglwys Pontardawe ac yn Old Walls, Gŵyr cynhaliwyd priodas Ffion, merch Mrs Gill Lloyd a'r diweddar Mr Huw Lloyd, Ystradowen â Michael Williams, Cefneithin. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt.

Tipyn o gamp wir yw dod yn wythfed yn y byd mewn cystadleuaeth i unigolion yn marchogaeth. Dyna a wnaeth Mathew, mab Mr a Mrs Wynford Thomas, Heol Gynol yng nghanolfan David Broom yng Nghasgwent. Hefyd gyda'i dîm cipiodd y wobwr gyntaf ym mhencampwriaeth Cymru ac yna ym mhencampwriaeth Prydain. Dim syndod felly iddo dderbyn galwad ffôn i ddweud ei fod wedi'i ddewis yn aelod o dîm Cymru dan 12 oed i gystadlu yn Swydd Dorset ar ddiwedd mis Awst. Llonyfarchiadau Mathew.

CYDYMDEIMLO

Collwyd pedwar o drigolion y pentre yn ddiweddar. Cydymdeimlwn yn fawr â theuluoedd Mr Dewi Phillips, Heol Gwilym, Mrs Mair Harries, Heol Gynol gynt, Mr Barry Power, Heol Gwilym a Mr Keith James, Dolawel.

CLEIFION

Gwellhad buan i Mr Gary Lake, Heol y Coedcae, Mr Peter Jones, Railway Terrace a Mrs Bet Evans, Heol Gwilym. Bu'r tri yn derbyn triniaeth mewn ysbyty yn ddiweddar.

CROESO NŴ

Ymadawodd Mr Hywel Davies â'r pentre ym 1965, ac eleni daeth nôl o Seland Newydd gyda'i wraig Pam a'u plant i ymweld â'r teulu, Moyra a Jeff yn Heol Samuel. Cawsant amser hapus yn hel atgofion a chyfarfod â hen ffrindiau, a llawer o bleser wrth ymweld â'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli.

NEUADD Y PENTRE

Enillwyr y Clwb Cant y tro yma oedd: Mr Malcolm Norman, Heol y Coedcae - (£100)
Mr Cerith Davies, Pentyrch – (£50)
Mr Andrew Lewis, Railway Terrace (£25)

Gweithgareddau'r dyfodol:

Medi 19 – Bore Macmillan
Hydref 17 – Cyngerdd, gyda Peter Kaorie a doniau lleol.
Mynediad £10. Dechrau am 7 o'r gloch.

CANOLFAN YSTRADOWEN

Bydd Noson Joio yn y ganolfan ar Hydref 18. Yn diddanu bydd Dewi Pws, Sue Roderick a Dafydd Hywel. Ceir mwy o fanylion yn y Ganolfan (830406). Cofiwch hefyd bod y Clwb Cinio bob dydd Llun a dydd Mercher – pris £4.50 10am. Te a thost 12pm. Cinio ac yna gêm o bingo gorffen am 2 o'r gloch.

Croeso cynnes i bawb.

PARTNERIAETH NEWYDD MEDDYGFA AMAN TAWE

Bydd cyfle i gleifion Meddygfa'r Cwm gyfarfod â'r doctoriad newydd mewn sesiwn holi yng Nghanolfan Ystradowen am 6 o'r gloch ar Fedi 25ain.

YSTALYFERA

COFIO AM HETI

Mae'n drist meddwl bod Mrs Heti Lewis, y Farteg wedi ymdael â ni a hithau gyda'r hynaf yn ein plith. Ganwyd a'i magwyd yn yr ardal, yn wir Ystalyfera oedd ei milltir sgwâr ac adlewyrchai werthoedd y gymuned glos hon yn ei pherson ac yn ei pharch tuag at eraill.

Bendithiwyd yn helaeth iawn ag ysbryd ffein cymwynasgar a diymhongar ac oedd yn ddwfn yn serchiadau pawb a gafodd y fraint o'i nabod. Yn sicr iawn fe fyddwn ni yn y Wern yn gweld eisiau Heti yn fawr iawn gan iddi fod yn ffyddlon i'r oedfaon ar hyd ei hoes ac yn gefnogol i bob gweithgaredd oedd yn gysylltiedig â'r Wern.

Yn naturiol rydym yn cydymdeimlo â Mair a'r cysylltiadau oll yn eu colled a'u hiraeth ar ôl un mor annwyl yn eu golwg. Heddiw i'w llwch a bendith y nef ar ei theulu annwyl.

YN DATHLU PENBLWYDD ARBENNIG

Fel cymdeithas rydym am longyfarch yn wresog iawn Mrs Margaret Jean Jenkins, Pen y Wern oedd wedi dathlu penblwydd nodedig yn ddiweddar Daeth llawer iawn o ffrindiau Margaret Jean a'i theulu hyfryd ynghyd i'r Legion yn Ystalyfera i rannu eu llawenydd a chafwyd amser da gan bawb oedd yn bresennol.

Ychwanegwn ein llongyfarchion cynhesaf hefyd i Mrs Ann Lewis, y Farteg gan fod Ann yn ystod gwyliau'r haf wedi cyrraedd carreg filltir nodedig iawn. Bu dydd ei phenblwydd yn ddiwrnod prysur a hapus yn naturiol i Ann wrth i'r cardiaau gyrraedd a ffrindiau yn galw.

Fel cymdeithas y Wern ymhyfrydwn fod Margaret Jean ac Ann wedi cael dydd i'w gofio wrth iddynt ddathlu eu penblwydd gyda'i teuluoedd a'i ffrindiau. Llongyfarchion mawr i Margaret Jean ac i Ann a phob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

DYMUNO'N DDA I GYFEILLION

Mae Moyra wedi bod yn yr ysbyty am rai diwrnodau yn dilyn ei hanhap yn ddiweddar, ond erbyn hyn mae nôl ar ei haelwyd yn Prospect Place yn atgyfnerthu. Yn naturiol ry'n ni'n meddwl am Moyra ac yn dymuno'n dda iddi.

Mae rhai wythnosau wedi mynd heibio ers i Mrs Ray Phillips dreulio cyfnod byr yn yr ysbyty yn cael triniaeth ar ei phenglin. Da yw cael dweud fod Ray allan o'r ysbyty ac yn cael y gofal gorau gan Helen a Wyn ar eu haelwyd glyd yn Claire Road. Dymuniadau gorau i Ray, a braf oedd ei gweld nôl yn ei sedd arferol yng ngwasanaeth y cymun mis Awst.

Mae Mr Eirwyn Williams wedi bod yn aros peth amser am driniaeth yn yr ysbyty. O'r diwedd fe ddaeth yr alwad ac erbyn hyn mae Eirwyn weid cael y driniaeth roedd e'n aros yn eiddgar amdani. Bellach mae e'n nôl gartref a gyda Caryl yn gofalu'n dyner amdano, gwella ac atgyfnerhu fydd ei hanes nawr o hyn allan.

CYDNABOD LLWYDDIANT

Ry'n ni bob amser yn falch i glywed am lwyddiant ein pobl ni. Mae'n dda cael gwybod fod Adam, wŷr Rhys a Cath wedi gwneud yn ardderchog yn ei arholiadau lefel 'A' ac mae hynny'n newyddion o lawenydd mawr i bawb ohonom. Y cam nesaf i Adam ar ôl hyn yw cwblhau ei gwrs lefel 'A' a'r disgwyl yw y bydd wedyn yn parhau ei addysg mewn coleg o'i ddewis. Bydd Rhys a Cath fel dadcu a mamgu balch iawn, siwr o gyfleu ein llongyfarchion yn y Wern i Adam a'n dymun iadau gorau iddo ar gyfer y dyfodol.

Nid yw llwyddiant yn dod heb ymdrech ac mae'n ddigon anodd astudio a llwyddo wrth wneud, pan fod un yn cael cyfle i wneud hynny yn llawn amser. Cymaint yn anoddach yw hi pan fod un yn gweithio'n llawn amser, ac wedyn ar ôl diwrnod o waith yn mynd at y llyfrau i astudio – nid dyna'r ffordd rwydda o wneud pethau. Ond dyna fel mae Gareth, mab Colin a Rhona wedi mynd ati ac er mawr glod i'w hunan a'i deulu annwyl,

ymlawenhawn gyda hwy gan fod Gareth wedi llwyddo'n eithriadol yn ei arholiadau proffesiynol. Bellach gall Gareth ychwanegu'r cymhwyster A.C.C.A. at y radd B.A. (Anrhydedd) sydd ganddo eisioes. Ardderchog yn wir.

Mae'n dymor y canlyniadau. Llongyfarchiadau mawr i bawb sydd wedi cael canlyniadau wrth eu bodd, ac i'r sawl sydd wedi syrthio'n brin o'r marc, boed iddynt wneud yn well y tro nesaf ac yn naturiol rydym yn meddwl yn dda iddynt hwythau hefyd.

YR ALLTWEN

PENBLWYDD 90

Llongyfarchiadau gwresog i Lindsay Williams ar ddathlu ei benblwydd yn 90. Yn berson hynaws, poblogaidd a doniol bu Lindsay yn athro ysgol gynradd yng Nghastell-nedd ac yn Gyngorwr ar Gyngor Cymuned Cilybebyll. Bu hefyd yn hynod o weithgar yn y Capel yn gofrestrudd ac ef yw'r diacon hynaf. Mae ganddo ef a'i wraig Lynda ddau o blant – Rhodri a Rhiannon a phump o wyrion – Theo, Rhys, Ralph, Huw a Hari.

BABANOD

Rydym yn falch iawn o gyfeirio at y newydd-anedig sydd wedi eu geni i aelodau neu sydd â chysylltiadau â Chapel yr Alltwen. Croeso i Elsie Beatrice Haf – merch i Bethan a Luke, chwaer i Oliver ac wyres i Iris a Mel Walker, Cilmaengwyn a Philipa a Michael Owen, Ystadgynlais.

Croeso i Morgan Owain – mab Celine a Huw Lewis, Lôn Hir, brawd Nia ac wŷr Judith ac Owain Lewis, Gellinudd a Michael Masson, Lyons, Ffrainc a gor-wŷr Llinos Lewis, Gellinudd.

Daeth llawenydd yr ail dro i Judith ac Owen Lewis, wrth i wŷr arall gyrraedd – Evan Rhys, mab Rhian a Mark ac wŷr Elaine a David Adams, Trefynwy, a gor-wŷr Llinos Lewis, Gellinudd.

Croeso i Deio Tomos, mab Angharad a Ben, brawd Ifan, ac wŷr Delma James a Gareth George a Lynda a Richard Naylor a gor-wŷr Beti a Michael George, Godre'rgraig.

Croeso i Oz Riker, mab Robert a Carly, brawd i Dax, ac wŷr Beti Wyn a Steven Taylor, West Cross a gor-wŷr Nan Davies, gynt o Stryd Edward.

YR EISTEDDFOD

Braf oedd gweld Wiliam a Mari Lanchbury yn y gystadlueaeth Parti Dawnsio Gwerin o dan 25 oed gyda Tawerin a ddaeth yn ail.

Hefyd bu Wiliam yn y gystadlueaeth Tlws Coffa Lois Blake i ddawnsuwr, a daeth Tawerin yn ail eto.

Rydym yn sobor o falch o lwyddiant Ceri Wyn Jones ar ennill y Gadair oherwydd bu ei dadcu, y Parchedig Gwynedd Jones yn weinidog yng Nghapel Danygraig am gyfnod, a chafodd ei dad Dafydd ei eni tra roedd y teulu yn byw ym Mans Danygraig yng Ngelli-nudd.

LLWYDDIANT

Llongyfarchiadau i'r canlynol sydd â chysylltiadau â'r capel sydd wedi llwyddo eleni.

Rhiannon Hammond, athrawes yr Ysgol Sul, sydd wedi ennill gradd M.A., mewn addysg o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin.

Carwyn Hammond ar ennill gradd M.A., mewn Rheolaeth a Busnes o'r un Brifysgol.

Maent yn blant i Lynda a Terry Hammond, Bwlch y Gwynt, ac yn wyrion i Marjorie Williams, Resolfen a Betty Morgan, Blaendulais.

Laura Evans, sydd wedi ennill gradd M.Sc mewn Biogwyddoniaeth o Brifysgol Caerdydd, ac wedi sicrhau lleoliad ymchwil mewn Economeg Amgylcheddol ac Ecologol ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Mae Laura yn ferch i Eiryl a Leslie Evans, Lôn Hir, ac yn wyres i Catherine ac Arwyn Llewelyn, Bryn Llewelyn a Pamela a John Evans, Heol Gwyn.

Alun George wedi ennill H.N.D, mewn Amaethyddiaeth o Brifysgol Aberystwyth ac ar hyn o bryd yn gweithio ar ffarm odro ger Stormy Down. Mae Alun yn fab i Mary a Huw George, Maes Rhosyn, Rhos.

Dymunwn yn dda i Rachel, merch Wendy a Byron Davies, Heol Francis, ac wyres Myrtle Davies a Maureen Gibson sydd yn mynd i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant Caerfyrddin i ddilyn cwrs addysg cynradd.

Yr un yw'n dymuniad i Elin, merch Ann a Ian Davies, Lôn Hir ac wyres Glenys Evans, Penparc, Aberteifi a Myris Davies, Llechryd sydd yn mynd i ddilyn cwrs Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn adran o Brifysgol Fetroplitan Abertawe.

CRICED

Mae Gwenan, merch Elizabeth a Kim Davies, ac wyres Glannydd Davies, Clydach, wedi bod yn brysur yn chwarae criced yn ystod yr haf.

Roedd yn nhîm Prifysgol Loughborough a enillodd Bencampwriaeth Prifysgolion Prydain Fawr yn Lords, ac mae hefyd y chwarae i dimau Menywod Cymru ac i Sheffield.

Hi hefyd yw'r unig ferch sydd yn chwarae i Gynghrair De Cymru a hynny wrth chwarae i dîm cyntaf Clydach.

GWELLHAD BUAN

Dymunwn adferiad buan i Brenda Matthews, Alltwen Chwyth sydd wedi derbyn llaw driniaeth yn Ysbyty Treforys.

PRIODAS

Ar Awst 9, priododd Rhian merch y Parchedig Gareth Morgan Jones a Gill Jones a Stuart, mab Mary a Geoff Atherton, Abertawe.

Chwaraeodd yr organydd Huw Rees, "Llety'r Bugail" – Eleri Owen, fel Ymdeithgan y Briodferch, ac Ymdeithgan y Frenhines Sheba fel yr Ymdeithgan Briodasol.

Yn ystod y gwasanaeth, a weinyddwyd gan y Parchedig Gareth Morgan Jones, canodd Angharad Brin, un o ffrindiau Rhian "Tra bod dau", a "Mil harddach wyt".

Mae Rhian yn athrawes yn Ysgol Gymraeg Bryn y Môr, Abertawe a Stuart yn swyddog cyllid gyda'r Gweilch.

Roedd y wledd briodasol yn Neuadd Sgeti ac aethant ar eu mis mêl i Tenerife.

Pob bendith iddynt i'r dyfodol



PONTARDAWE

TABERNAACL

OEDFAON MIS MEDI

7	10.30	Y Brawd Owen Pugh
14	10.30	Y Chwaer Lina Roberts
21	10.30	Y Brawd Owen Pugh
28	10.30	Y Brawd Rhydian Griffiths

**Cymundeb
Yn Soar**

OEDFAON MIS HYDREF

5	10.30	Y Brawd Owen Pugh
---	-------	-------------------

Cymundeb

12	5.30	Y Brawd Gareth Hopkin
19	10.30	Y Brawd Owen Pugh
28	10.30	Oedfa'r Chwiorydd

GWIBDAITH

Ar 1af o Orffennaf aeth aelodau ein Cymdeithas Ruth a Naomi ar eu gwibdaith flynyddol. Eleni aethant i'r farchnad yn y Fenni ar ôl galw yn 'The Old School House' yn Nefynnog am banded a chacen. Wrth ddychwelyd adref cawsant bryd o fwyd yng ngwesty Ynysmeudwy. Roedd pawb wedi mwynhau'r dydd yn fawr iawn. Dyma llun y chwiorydd yn yr 'Old School House'.



PRIODAS ANN A RYAN

Ar ddydd Sadwrn 5ed Gorffennaf priodwyd Ann, merch ein trysorydd Malcolm Jones a'i wraig Gwen o Rydyfro, a Ryan Francis o Gasllwchwr. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn y Tabernacl dan ofal yr arweinydd Owen Pugh gyda Christopher Lewis wrth yr organ. Roedd Martin, brawd Ann a'i wraig Hannah yn bresennol ac hefyd rhyw gant a hanner o aelodau'r ddau deulu a ffrindiau. Roedd y tywydd yn heulog a chynnes iawn a'r holl drefniadau yn berffaith. Yn dilyn y briodas aeth y gwesteion ymlaen i westy'r Manor Park yng Nghlydach lle cawsant luniaeth arbennig o dda gydag adloniant yn dilyn yn yr hwyr. Roedd yn achlusur hwylus iawn.

Dyma lun Ann a Ryan gyda Gwen a Malcolm tu allan i'r Manor Park.



PRIODAS CHRISTOPHER A FFION

Ar ddydd Sadwrn 9fed Awst priodwyd Ffion Lyn Halfpenny a Christopher Lewis gan y Parchedig Alan Maunder yn Eglwys Llanfair, Cwmgors. Mae Christopher wedi bod yn organydd yn y Tabernacl am sawl blwyddyn bellach a dymunwn bob bendith arnynt yn eu bywyd priodasol. Yn dilyn y gwasanaeth aethant i Ganolfan Gymunedol Myddfai i fwynhau mwy o ddathliadau. Dyma lun Christopher a Ffion yn ymadael â'r Eglwys.



Y PANTRI

Ar ôl cyfnod yng Nghanolfan Gymunedol y Groes ym Mhontardawe mae 'Y Pantri' yn awr wedi ymgartrefu yn festri'r Tabernacl. Mae ar agor rhwng 10.00 a 12.00 bob dydd Mawrth a dydd Sadwrn. Diben 'Y Pantri' yw rhoi cymorth i unigolion neu deuluoedd sydd mewn argyfwng trwy roi parseli o fwyd a fydd yn ddigon iddynt am bedwar diwrnod tra bod yr asiantaethau swyddogol yn cael amser i drefnu cymorth iawn iddynt.

Mae llawer o'r asiantaethau hyn wedi eu sefydlu yn yr 'Hub' sydd mewn adeilad drws nesaf i'r Llyfyrgeall ym Mhontardawe. Mae ar agor bob dydd Mawrth a dydd Iau. Mae bron ugain o'r asiantaethau hyn yn medru rhoi talebau i bobl sydd eu hangen fel y medrant fynd â rhain i'r 'Pantri' i gael eu parseli o fwyd. Mae'r bwyd sydd yn cael ei ddsbarthu wedi dod o roddion rhad gan bobl yr ardal. Bydd y 'Pantri' yn falch iawn o gael mwy o roddion. Os medrwyd gyfrannu gadewch eich rhoddion yn y blychau bwyd arbennig sydd ar gael yng Nghanolfan y Groes, Canolfan Celfyddydau, y *Co-op* a Festri'r Tabernacl.

Mae galwadau am y math hyn o gymorth ar gynydd. Y galw mwyaf yw am fwydydd tun, coffi, sigwr a thatws mewn tun neu powdr.

CYNGERDD

Bydd ein cyngerdd nesaf ar Sadwrn 8fed Tachwedd. Mwy o fanylion yn y man.

GWASANAETH COFIO'R RHYFEL BYD CYNTAF

Am 3.00 o'r gloch ar ddydd Sul 9fed Tachwedd byddwn yn cynnal gwasanaeth arbennig o dan ofal y Brawd Owen Pugh i gofio aelodau'r Tabernacl a syrthiodd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Disgwylir y bydd llawer o'u teuluoedd yn bresennol.

Tabernacl, Pontardawe

OEDFA'R CYNHAEAF

a

DADORCHUDDIO CARREG GOFFA

i'r Parchg T. Elfyn Jones
Cyn-weinidog yr Eglwys

Bore Sul, 5 Hydref 2014
am 10.30 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb

SOAR PONTARDAWE

(crynodeb o newyddion a ddyli fod yn rhifyn diwethaf y Llais, gyda ymddiheuriad am y cymysgwch.)

Fel rhan o gynllun hyfforddiant y Cylch, cawsom ddarlith ar William Williams Pantycelyn gan yr Athro E. Wyn James, Caerdydd, ym Methel, Llangyfelach. Roedd hon yn un o gyfres a drefnwyd gan Swyddog Hybu'r Henaduriaeth (Parchg Carwyn Arthur) i ddathlu canmlwyddiant bywyd a gwaith nifer o "Dadau'r Methodistiaid". Paratowyd te gan chwiorydd Bethel wedi'r ddarlith.

Cafodd ein gweithiwr bugeiliol, Hefin, amser eitha caled yn ddiweddar. Bu ei wraig, Cintia, a Steffan ei fab yn yr ysbyty. Da gennym ddeall bod pethau'n well erbyn hyn. Oherwydd hyn, a'r Cwrs yng Ngholeg y Bala, bu'n rhaid gohio'r Clwb Plant dair gwaith. Gobeithiwn aildechrau'n fuan.

Anfonwn ein dymuniadau am adferiad buan i Pat Jones Evans, Brynlllynfell wedi i ni glywed ei bod wedi dioddef damwain gas iawn.

Mae Cynthia am ddiolch o galon (unwaith eto) am yr holl gymorth a gafodd yn ystod y deufis diwethaf gan aelodau Soar, a'i chymdogion a'i ffrindiau. All hi byth ddiolch digon.

Bu Cwrdd Cenhadol Henaduriaeth Morgannwg Llundain yn Eglwys y Gopa Pontarddulais ym Mehefin. Hefin Jones fu'n annerch, gyda'i hanes tra'n gweithio fel cenhadwr gyda "World Horizons" yn Cairo. Roedd ei brofiad yno, lle nae 9% yn unig yn Gristnogion yn agoriad llygad i ni, ac yn ysbrydoliaeth hefyd. Cymaint mwy anodd yw bod yn Grision mewn llawer gwlad. Mae'n dda bod pobl fel Hefin yn barod i fynd â'r Newyddion Da i bobl sy'n ei glywed am y tro cyntaf. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan aelodau o Soar, Tabernacl Resolfen, Bethel Llangyfelach, y Gopa Pontarddulais a Grove Place, Port Talbot.

Roedd Bethan Richards, Trinity a anwyd yno, yn ymweld â Bryniau Kasia (Assam) fis Gorffennaf a gofynnwyd iddi drosglwyddo ein cyfarchion i'r eglwys yno. Trefnwyd bws yng Ngorffennaf i Drefeca i ddathlu bywyd a gwaith Howell Harris a Thomas Charles. Paratowyd lluniaeth wedi'r oedfa a chawsom groeso arbennig gan chwiorydd y Gopa.

Blin gennym glywed am farwolaeth Doreen, chwaer Avril Isaac, wedi tostrwydd hir a phoenus. Bu Doreen yn gefnogol iawn i'n cywaith elusenol ni yn Soar dros y blynyddoedd a bu Avril yn ffyddlon iawn yn ei gofal drosti bob amser.

SOAR

Yn ôl eu harfer, ymunodd aelodau Tabernacl a Soar i addoli yn ystod Awst. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion Derwyn M. Jones, Victor Evans, Clive Williams a'r brodyr Owen Pugh ac Islwyn Hopkin.

CYMORTH CRISTNOGOL

Pan ddaeth apêl arbennig Gaza gan Cymorth Cristnogol yn ystod y mis, penderfynwyd cyflwyno'r casgliadau rhydd ar ddau o'r Suliau i'r apêl a chafwyd cyfanswm o £250. Yn ystod y mis, hefyd, casglwyd dros £200 yn siop *Tesco*. Mae Wendy am ddiolch i wirfoddolwyr eglwysy'r ardal a fu'n casglu yno. Swm casgliad Soar ym mis Mai oedd £308.

PENBLWYDD

Bu Mair Bale yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed yn ystod y mis. Cafodd Chwiorydd Soar a'i ffrindiau oes (tair ohonynt hefyd yn 90 oed) eu gwahodd i de yn festri Soar gan deulu Mair a chawsom brynhawn wrth ein bodd. Deuddydd wedyn, yn ystod y dydd, croesawyd teulu Mair – dros hanner cant ohonynt i gartref ei merch, Catherine, yn yr Alltwn. Trefnwyd cinio gan Chwiorydd Soar i ddathlu'r achlysur. Llonyfarchion i Mair – aelod ffyddlon oes yn ein heglwys – un sydd bob amser yn siriol a chroesawus. Mae hi am ddiolch i'w theulu a'i chyfeillion am eu cwmni, y cardiau, a'r oll gyfarchion a gafodd.



Parti Haf Ysgol Sul Soar

LLWYDDIANT

Mae'n dda cael llongyfarch Bethan, Ryan a Chlôe ar eu llwyddiant yn yr arholiadau TGAU. Bydd Bethan yn symud ymlaen i astudio yng Ngholeg Caerllion, Chlôe i Goleg Gorseion, a Ryan i chweched dosbarth Ysgol Gyfun Ystalyfera ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Dymunwn bob bendith arnynt yn y dyfodol.

Ar Fedi 14, bydd y Parchedig Cynwil Williams yn ein

gwasanaethu yn ein Cyfarfod Pregethu Blynyddol. Estynnwn groeso cynnes i bawb a hoffai ymuno â ni.

EIRUG YN DATHLU PENBLWYDD NODEDIG

Un o gymeriadau mwyaf hoffus ac adnabyddus Pontardawe yw Mr Eirug Roberts, oedd wedi dathlu ei benblwydd yn 80 oed yn ddiweddar. I ddathlu'r achlysur cynhaliwyd parti i Eirug yng Nghartref Danybryn ym mhresenoldeb llawer o'i ffrindiau oedd wedi dod ynghyd i'w longyfarch a dymuno'n dda iddo.



Gan fod Eirug yn perthyn i gymaint o fudiadau yn yr ardal ac yn ffyddlon i'w cyfarfodydd a'u gweithgareddau, hyfryd iawn oedd cael cwmni cynrychiolwyr o'r mudiadau hyn yn y dathliad sef, Cymdeithas Hanes Cwmtawe, Capel Mount Elim, Clwb Criced Pontardawe, y Grŵp Chwist, Cymdeithas Ffrindiau Llangiwig.

Yn bresennol hefyd oedd Côr Rygbi Treforys. Fel syrpreis i Eirug roedd Huw nai Eirug sy'n aelod ac yn brif unawdydd y Côr wedi trefnu iddynt ddod i Danybryn i ganu i Eirug ac i ddifyrru y lluo o ffrindiau oedd wedi dod ynghyd.

Yn ystod y parti hefyd dyfarnwyd i Eirug yr anrhydedd o fod yn aelod oes o Glwb Criced Pontardawe i gydnabod ei ffyddlondeb a'i gefnogaeth i'r clwb dros gyfnod maith.

Yn ychwanegol cyflwynwyd copi o lyfr hanes lleol i Eirug, fel arwydd o werthfawrogiad ac o gyfraniad sylweddol Eirug i'r Gymdeithas Hanes eto dros gyfnod hir iawn.

Roedd yn amlwg bod Eirug wrth ei fod yng nghwmni cymaint o'i ffrindiau oedd wedi dod ynghyd i rannu gydag ef lawenydd yr achlysur.

Diolch am achlysur hyfryd iawn ac i staff Danybryn am eu croeso cynnes ac am ddarparu lluniaeth mor rhagorol.

Eugena Hopkin

RHYDYFRO

CAPEL Y BARAN

Yn oedfa mis Gorffennaf braint oedd bod o dan arweiniad y Parchg Alan John. Diolch iddo am ei barodrydd i'n gwasanaethu bob amser. Bedyddiwyd yn y gwasanaeth Ethan Kel, mab Jo a Chris Thomas. Mae Ethan yn llinach Roger Howell fferm Nantmoel (1874-1843) gweinidog cyntaf yr eglwys, fe'i ordeiniwyd a'i sefydlu yn 1805 ar agoriad yr achos. Rhoddodd ef a'i dad John Howell y tir ar ymyl y fferm i godi'r capel. Prin yw'r gwerthfawrogiad o'r gŵr disglair yma heddiw yn yr ardal. Cynhaliodd ysgol yn ei gartref ac yn y capel. Hefyd bu'n hyfforddi meibion digon tlawd eu byd ar gyfer y weinidogaeth a'u cynnal ar ei gost ei hun. Aeth saith ohonynt i'r Unol Daleithiau heb sôn am y rhai a wasanaethodd yn yr ynysoedd yma. Tyfodd yr eglwys o dan ei arweiniad i 181 o aelodau erbyn y flwyddyn 1840. Gobeithio bydd y bychan a fedyddiwyd yn ymhyfyryd yn ei linach disglair. Ein braint ni a'n cyfrifoldeb ni'r aelodau presennol yw cynnal gweledigaeth sylfaenwyr yr achos a safodd yn gadarn ond yn heddychlon dros athrawiaeth y drindod. Gobeithio bod y Parchg Roger Howell yn ei wynfyd ymhlith y cwmwl tystion yn llawen o weld un o'i linach yn cael ei fedyddio yn ei gapel. Hefyd ein bod ni sy'n addoli yma heddiw yn gallu canu gydag arddeliad eiriau'r gweinidog Wesle W. H. Evans (Gwylt Mynydd).

“Addolwn Dduw ein Harglwydd mawr,
mewn parch a chariad yma'n awr;
y Tri yn Un a'r Un yn Dri
yw'r Arglwydd a addolwn ni.”

Cynhaliwyd ein darlith flynyddol ar nos Fawrth 15fed o Orffennaf. Y darlithydd gwadd eleni oedd y Parchg D. Carl Williams. Testun ei ddarlith oedd “Hiwmor mewn llenyddiaeth

Gymraeg”. Cawsom noswaith ddifyr ganddo yn sôn am nifer o awduron Cwmtawe, sef Islwyn Williams, Abiah Roderick a'r anghymharol Idwal Jones a fu'n weinidog yn Saron Rhyd-yfro. Clywsom hefyd ganddo ddyfyniadau o waith y gweinidog gyda'r Undodiaid Goronwy Evans, Llanbedr-Pont Steffan a hefyd y cawr o Rydcymerau D. J. Williams. Diolch i Mr Williams am ddwyn i gof gymaint yw ein dyled i'r cewri yma a gyfoethogodd ein diwylliant gyda'u hiwmor a'i straeon, mewn barddoniaeth a llenyddiaeth a dramâu.



Eifion Walters yn croesawu y Parchg D. Carl Williams

Hyfryd hefyd oedd y cymdeithasu wedi'r ddarlith a mwynhau'r lluniaeth blasus a baratowyd gan gyfeillion a gwragedd y capel. Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson.



Tair o wragedd bodlon ei golwg yn edmygu'r lluniaeth ar y byrddau: Bethan Roberts, Marion Thomas a Susan Davies.

Ar y Sul cyntaf o Awst cawsom y pleser o gael ein harwain gan y brawd Owen Pugh. Pregethodd gydag arddeliad ar ddameg yr heuwr. Wrth wrando ar ddehongliad Owen o'r ddameg gyfarwydd yma ar y gwahanol dir y syrthiodd yr had fe wnaeth inni feddwl pa fath o heuwyr ydyn ni heddiw. Hau yn y tir da fyddai'r dewis amlwg, ond y gwir yw bod y tir da yn ein gwlad yn brin iawn. Onid oes angen mentro i'r tir creigiog? A oes bai arnom am gyfyngu ein tystiolaeth yn y tir da, aros fel y dywed y Sais tu fewn i'r “cosy huddle”? Galwodd yr ysbryd ar Philip i fynd i'r tir anial i bregethu'r newyddion da am Iesu. Ac yno daeth o hyd i'r eunuch a'i fedyddio, ac aeth hwnnw ar ei ffordd yn llawen. Onid oes mwy o lawenydd yn y nefoedd am un pechadur sy'n edifarhau nag am naw deg naw o rai cyfiawn nad oes arnynt angen am edifeirwch?

Bydd oedfa mis Hydref o dan arweiniad Mrs Einir Jones Rhydaman, mis Tachwedd y Parchg Derwyn Morris Jones, mis Rhagfyr oedfa llithiau a charolau. Bydd pob oedfa am 2.30 y.p. ar Sul cynta'r Mis. Croeso cynnes iawn i bawb

RHYDYFRO

7 Medi 2014	Parchg Ieuan Davies
14 Medi 2014	Parchg Daniel Jenkins
21 Medi 2014	Brawd Phylip Jones – 3.00 yp
28 Medi 2014	Parchg Carl Williams

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Ann Jones, merch Malcolm a Gwen Jones, Waun Penlan a briododd Ryan Francis o Lwchwr yng nghapel

y Tabernacl, Pontardawe. Maent wedi ymgartrefu yn Waun Gron, Gelligrn.

MARWOLAETH

Blin oedd clywed am farwolaeth Gareth Davies, Gellilwca Fach gynt. Fe ddaeth nifer fawr o bobl ynghyd yn Amlogsgfa Treforys. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r plant a Margaret, hefyd a Mary a'r teulu.

BEDYDD

Ar brynhawn dydd Sul 13 Gorffennaf fe fedyddiwyd Matilda Abigael, merch Leighton a Victoria Campbell a gor-wyres i Margaret Brown, Waun Penlan. Gweinyddwyd y bedydd gan y brawd Eifion Walters, Rhydyfro.

GWELLHAD

Bu Mrs Eirlys Jones, Waun Penlan yn yr ysbyty yn Aberystwyth yn ystod ymweliad â'i mab. Fe aeth wedyn i aros gyda Ann ei merch a'r teulu yn Llundain a gobeithio bydd yn ôl yn ei chartef cyn bo hir.

CLYDACH

GŴYL GYMUNEDOL

Cynhaliwyd Gŵyl Gymunedol lwyddiannus iawn yng Nghlydach ddechrau mis Awst. Trefnwyd gan y Cyngor Cymuned lleol ar gaeau Waverley. Dyma rai o'r cynghorwyr gyda'r plant a ddaeth i'r Oedfa ar bnawn Sul.



MERCHED Y WAWR

Yn ystod y tymor llynedd cafwyd sgwrs gan un o gynhyrchwyr cyfres y Plas a ymddangosodd ar S4C. Roedd wedi ennyn diddordeb yn yr aelodau a threfnwyd taith i Lannerchaeron. Cafwyd diwrnod hyfryd yn ymweld â'r plasdy a thipyn o hwyl wrth weld sut roedd y byddigions a'r gweithwyr yn byw.



Bydd cyfarfod cyntaf y tymor ym mis Medi yn Ffestri Calfaria - cyfle i ymaelodi, cael ychydig o hanes y Gangen a'r Mudiad a bwffe o'r Pantri. Edrychwn ymlaen at groesawu aelodau newydd. Mae'n bwysig iawn bod gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei lle yn y pentref. Cofiwch y dyddiad - y drydedd nos Fawrth yn y mis - Medi 16

CAPEL Y NANT

Yn ystod mis Awst gwasanaethwyd yng Nghapel y Nant gan y

Brawd John Harry o Bontarddulais, ein harweinydd Robot Powell a'r Parchedigion Kenneth Lintern ac Emyr Gwyn Evans.

NEUADD Y NANT

Braf oedd clywed ein bod yn mynd i dderbyn grant ar gyfer adnewyddu'r Neuadd. Rydyn yn ddiolchgar iawn i David Waghorn am ei waith mawr wrth baratoi ar gyfer yr holl geisiadau. Un peth yw cael grant a help ariannol ond mae'r pwysau mwyaf ar ein hysgwyddau ni fel aelodau. Rhaid casglu rhagor o arian a hefyd cydweithio gyda'n gilydd fel partneriaethau i glirio ac adnewyddu'r Neuadd ar gyfer defnydd ein hunain ac ar gyfer y gymuned. Fel pob adeilad arall rhaid adnewyddu a chywiro. Dros dro bydd rhaid defnyddio sawl cornel yn y capel ar gyfer ein cyfarfodydd amrywiol. Gobeithir y bydd y gwaith ar ben erbyn y Nadolig.

Croeso i Fore coffi yn nhŷ Annette a Dewi, Llawr y fesen, 53 Oakwood Drive ddydd Gwener Medi 19 i chwyddo coffrau arian adnewyddu'r Neuadd a Canolfan Magi yn Ysbyty Singleton.

LLONGYFARCHIADAU

... i un o'n haelodau Gwyneth Evans gynt o Heol Waverley sy'n byw gyda'i merch a'i mab yng nghyfraith Joanne ac Islwyn James yn Ynystawe a hithau yn 103 ym mis Medi.

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Meudwen Deer gynt o Heol Ffatri a fu faru yn ddiweddar ar ôl cyfnod o salwch mewn cartref yn Waungron.

PRIODASAU RUDDDEM

Llongyfarchiadau i Huw ac Anne Bowen ac i'r Parchg Pam a'r Dr Alan Cram ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.



Huw ac Anne Bowen



Y Parchg Pam a'r Dr Alan Cram

Y WESLE

Cynhelir Ffair Wesle er budd Macmillan dan nawdd Eglwys Fethodistaidd yn Neuadd Gymuned Heol y Fardre ar Sadwrn Medi 27ain.

CADW

Yn ystod mis Medi bydd drysau eglwys y Santes Fair Clydach ar agor ar Fedi 13 a 14 a hefyd Canolfan Cadwraeth ym Mharc Coegwilym fel rhan o ddyddiau agored CADW. Mae cyfle i ymweld â nifer o adeiladau sydd wedi eu cofrestru, a chyfle i weld adnewyddiadau sydd wedi ei gwneud i leoedd fel Neuadd y Brangwyn ac ati. Ewch ar wefan CADW a chewch restr o'r safloedd a'r adeiladau y gellir ymweld â nhw o dan y cynllun yma ym mis Medi.

FFENESTRI LLIW MEWN LLYFR NEWYDD

Yn ystod yr haf cyhoeddwyd llyfr newydd gan wasg y Lolfa o dan y teitl *Stained Glass from Welsh Churches* gan Martin Crampin. Mae'n llyfr godidog iawn yn llawn hanes ffenestri lliw. Ceir lluniau ynddo o nifer fawr o ffenestri ac o ddiordordeb i ni yn Nghlydach gwelir llun ffenest Ward & Hughes 1870 o Esgyniad Iesu o Eglwys St John; ffenest Edward Frampton 1919 - milwyr yn derbyn Cymun ar faes y gad, ffenest orllewinol yn Eglwys y Santes Fair, ffenest o waith Rachel Phillips 2005, Oscar Romero yn y gangell yn St Benedict a ffenest goffa'r Parchg Gareth Thomas, y Jiwbilli 1991 o Gapel Hebron sydd yng Nghapel y Nant erbyn hyn o gynllun Colwyn Morris o Stiwdio Glantawe Tim Lewis, Treforys. Mae'n llyfr diddorol iawn ac yn anrheg arbennig. Pris £29.99 Gwasg y Lolfa.

YSBYTY

Da clywed bod Tal Williams yn well ar ôl ei gyfnod yn yr ysbyty. Dymuniadau gorau i Carol Longden yn Ysbyty Singleton.

GWASANAETH COFFA

Ar Awst 2 cynhaliwyd gwasaneth coffa i Huw Morgan yn Eglwys y Santes Fair. Roedd cynulleidfau fawr o deulu a ffrindiau wedi dod i wasanaeth o ddiolchgarwch o dan arweiniad y Ficer Parchg Lyndon Taylor a'r Parchg Scott Talbott, perthynas drwy briodas i'r ymadawedig. Wedi'r darlenniadau canwyd y drydedd Salm ar Hugain gan y Côr a chyflwynodd y ddau frawd Dr Lindsay a Dr Brian Morgan deyrngedau i'w brawd. Tystiodd y Ficer i waith elusennol aruthrol Huw o fewn y gymuned. Sefydloodd Ymddiredolaeth ac mae nifer o elusennau a mudiadau wedi ac yn elwa o'i haelioni mawr. Cynhelir gwasanaeth arall o ddiolch yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi ym mis Medi a bydd nifer o Glydach yn mynd yno.

PWYLLGOR CLYDACH I GODI ARIAN AT YMCHWIL CANCR

Yn ddiweddar bu nifer o'r aelodau yn gwerthu blodau adeg Ras am Fywyd a chodi £300 at yr elusen.

Ar Hydref 3 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Moose cynhelir noson - Ffowlyn a sgloodion a cherddoriaeth gan y Grŵp gwerin Dawnsio Gwyddelig - Macks Fancy. Croeso cynnesi bawb.

FELINDRE

NEBO

Gobeithio fod pawb wedi mwynhau mis Awst a hwnnw yn fis o wyliau i lawer, ond diolch i'r rhai hynny a ddaeth i Nebo drwy gydol y mis i gymdeithasu, gweddïo dros eraill a chael pregeth arbennig gan wahanol weinidogion. Diolch i'r Parchg Dyfrig Rees am lenwi Sul ar fyr rybudd pan gafodd y Parchg Hywel Jones ei daro yn sâl a gorfod mynd i'r ysbyty am beth amser, ond mae adref erbyn hyn ac ar wellhad. Cefnogwyd Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr ar y 3ydd o Awst ac ataliwyd yr oedfa y bore hwnnw. Cafodd dwy o'r diaconiaid eu hanrhydeddu brynhawn Mawrth yn yr Eisteddfod Genedlaethol, sef Phyllis Bell ac Ann Evans gyda Thystysgrif am eu gwaith diflino gydag Eisteddfod Gadeiriol Felindre. Carwn i hefyd ddiolch i'r rhai hynny sydd wedi bod yn gweithio am flynyddoedd lawer ac yn dal i fod yn weithgar o hyd. Eisteddfod 2014: Hydref 24ain yn y Neuadd leol 1 y.p., Agored 6 y.h..

YSBYTY

Dymuniadau gorau i William Gimblett am wellhad llwyr a buan. Cafodd fynd i ysbyty Treforys, wedyn i Gorseinon ond mae adref yn ei gartref erbyn hyn yn Pontarddulais.

PRIFYSGOL / COLEG

Mae llawer o bobl ifanc y pentref wedi llwyddo i fynd i Brifysgol neu Goleg. Mae'r nifer mor lluosog mae ofn gadael rhywun allan arnaf felly pob dymuniad da i bob yr un ohonoch yn eich

Prifysgol / Coleg / swyddi a dyna yw dymuniad aelodau Nebo a'r pentrefwyr.

CYDYMDEIMLO

Mae'r lleddf yn parhau o hyd yn Felindre pan fu farw Sarah Williams, Bryngwyn yn 39 oed a hynny yn sydyn iawn. Cydymdeimlwn gyda'i rhieni Ryland a Sandra, tadcu a mamgu Ron ac Enid, ei chwaer Catherine, wyrion Mathew a Rebecca, a'i chariad Brian.

Tristwch fu i Oswyn Clement pan fu ei briod Audrey Rose Ann Clement, Tirdeunaw farw ar ôl blynyddoedd o fywyd priodasol gyda'i gilydd. Cydymdeimlwn gydag Oswyn, priod Kim, y plant Andrew a Peter, Kerri a Sara y merched-yng-nghyfraith, wyrion a gorwyrion, a Cyril a Glyn brodyr-yng-nghyfraith.

Bu Enoch Llewellyn Davies a'r ddiweddar Meudwen yn cefnogi'r pentref ar sawl achlysur yn eu hamser, ond daeth yr amser i Enoch ffarwelio, a hynny yn dawel. Cydymdeimlwn gyda'i frawd Blethyn a'i neiaint yn eu colled a'i hiraeth.

FFRINDIAU FELINDRE

Cafwyd "Prynhawn o Hwyl" yng nghae y pentref a'r Neuadd ar y 9fed o Awst gyda gwisg ffansi, gemau, plant yr ysgol yn canu, castell bownsio, rasy, lluniaeth: teisenod blasus, te, coffi, cŵn poeth, byrgers, hufen iâ, raffl a mwy. Diolch i'r gwirfoddolwyr am eu hamser a'r adloniant. Daliwch ati gyda mwy o hysbys y flwyddyn nesaf.

PREGETHWYR

Medi

- 7 Mr. Glynog Davies
- 14 Parchg Ieuan Davies
- 21 Parchg Vincent Watkins
- 23 Gwasanaeth Diolchgarwch
Parchg Ifan Rhisiart Roberts 2 y.p. Plant yr Ysgol, 6.30y.h. Oedfa'r Hwyr.
- 28 Parchg Clive Williams (Cymun)

Hydref

- 5 Parchg Morlais Owen
- 11 a 12 Cyrddau Mawr Parchg Myrddin Hughes
Sadwrn 6.30y.h. Sul 10.30y.b. a 2.30y.p.
- 19 Mr. John Harry
- 26 Parchg Eirian Wyn (Cymun)

CRAIG CEFN PARC

CYDYMDEIMLO

Fel eglwys a chymuned cydymdeimlwn gyda theulu y diweddar Doreen Griffiths a fu farw ym mis Mehefin yn 85 blwydd oed. Roedd yn wraig i'r diweddar Handel ac yn fam i Sharman, yn famgu ac yn hen famgu. Hefyd, mae ganddi ddwy chwaer, Eirlys ac Avril, y ddwy yn byw yn Nhrefannws. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Amlosgfa Abertawe gyda Mr Gareth Hopkin yn gweinyddu. Coffa da amdani.

GWELLHAD BUAN

Dymunwn adferiad iechyd i Mrs Audrey James (Jewell), Heol y Lôn sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty yn ystod yr haf. Pob dymuniad da iddi.

PRIODAS AUR

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol i Mr a Mrs Nigel a Wendy (John) Thomas, Llys Gwilym, Clydach a ddathlodd eu **Priodas Aur** yn ddiweddar. Yn ffyddlon i'r achos yn Elim maent yn rhieni i Richard a Stuart ac mae ganddynt ddau o wyrion. I ddathlu'r achlysur daeth y teulu a'u ffrindiau ynghyd yn y Penycae Inn.

GENEDIGAETH

Croeso i Scarlett Olivia Hamer, a llongyfarchiadau i Mrs Jean John, Elim, ar ddod yn hen famgu. Mae tad Scarlett, Gareth yn fab i Helen (John) a Brian Hamer, Castell-nedd. Pob bendith i'r teulu i gyd.

TREBANNWS

CYFARCHION O SINGAPORE

Roedd Mike ac Edwina Ranft wrth eu bodd yn ddiweddar i gael neges *Skype* oddiwrth eu hwyres fach Carys. Roedd Carys a'i rhieni Iwan a Tina yn y stadiwm newydd yn Singapore yn gwyllo Cymry Llundain, tîm y Gleision ac eraill yn chwarae rygbi yn y twrnament 10 bob ochor. Roedd Carys wedi gwisgo'n bwrpasol yn ei chrys rygbi Cymraeg ac yn chwifio baner y Ddraig Goch. Mae'r teulu wedi ymgartrefu yn Singapore ers tair blynedd bellach gan fod Iwan yn gweithio i gwmni *Rolls Royce* ar yr ynys.



DIWRNOD YN NINBYCH Y PYSGOD

Yn y llun gwelir "to ifanc" Cymdeithas Hen Oed Trebanos yn cael diwrnod wrth eu bodd yn Ninbych y Pysgod. Diolch I Marilyn Pugh am drefnu'r diwrnod mor drylwyr. I goroni'r cyfan gwnaeth yr haul ddisgleirio drwy gydol y dydd.



CYDYMDEIMLAD

Blin oedd clywed am farwolaeth Danny Lewis (y Grîn) ym mis Gorffennaf. Roedd Danny wedi ymgartrefu yn Bishopston ers rhai blynedd ond wedi cadw cysylltiad agos â'r pentref a chapel Gosen. Fe oedd yr ieuangaf o deulu'r Grîn a'r unig fachgen. Mae'n cydymdeimlad yn mynd i'w wraig Euros, ei fab Richard a'r teulu.

LLONGYFARCHIADAU

... i Ann a Larrie Newman, Trebannws ar ddathlu eu Priodas Aur. Priodwyd y ddau yn Pontnewynydd, Gorffennaf 1964.



Croeso i dudalen y Fenter Iaith. Dyma flas ar ddiwyddiadau'r Fenter Iaith yn ystod y misoedd diwethaf, yn ogystal â beth sydd i ddod.

GŴYL Y GWACH GORFFENAF '14

Agorwyd Gŵyl y Gwach 2014 ar nos Iau, 10fed o Orffennaf gyda noson o gomedi.

Dilwyn Morgan, Daniel Thomas, Phil Cooper a Noel James fu'n diddanu'r gynulleidfa niferus yn Nhafarn y Gwachel, Pontardawe.

Cafwyd perfformiadau gwych gan y pedwar, pob un a steil gwahanol, ond seren y noson heb os oedd Dilwyn Morgan gyda'i hiwmor naturiol traddodiadol, ac mae'n braf nodi bod comedi Cymraeg yn mynd o nerth i nerth yng Nghymru ar hyn o bryd.

Yn dilyn dechrau llwyddiannus i'r Wyl gyda noson gomedi ar y nos Iau, parhawyd gydag adloniant yr Wyl yng nghwmni un o fandiau gorau Cymru, sef "Mynediad am Ddim", ac oherwydd y tywydd braf, hyfryd oedd cael cynnal y gig tu allan.

Mae "Mynediad am Ddim" ar daith o gwmpas Cymru yn dathlu deugain mlynedd eleni ac yn dal i ddenu cynulleidfa oedd ledled Cymru. Braf nodi mai Pontardawe oedd y gig gyntaf iddynt chwarae yn y De fel rhan o'u taith, a hyfryd oedd gweld gymaint o drigolion yr ardal yn bresennol, yn ogystal â'r bobl oedd wedi teithio'n bell i glywed y band bytholwyrdd yn perfformio.

Yn ôl y disgwyl, cafwyd perfformiad gwych gan y band, a'r gynulleidfa wrth eu bodd yn gwrandao ar yr hen glasuron fel "Cyw Melyn 'Ola' a Hen ffwl fel fi yn ogystal â nifer o ganeuon poblogaidd eraill. Bu'r band ar y llwyfan am dros ddwy awr, a phawb wedi joio pob munud.



Er i'r tywydd troi yn ein herbyn ar prynhawn dydd Sadwrn yr Wyl, llwyddwyd i gynnal 'Diwrnod i'r Teulu' tu allan. Yn ystod y prynhawn cafodd y teuluoedd nifer fawr o weithgareddau amrywiol i'w diddanu gan gynnwys nifer o stondinau, llong mor ladron (a chystadleuaeth gwisg ffansi mor leidr), injan dân go iawn, paentio wyneb, castell neidio ac amryw o gemau.

Uchafbwynt y prynhawn oedd y llong mor ladron, bu'n llwyddiannus iawn, a hyfryd oedd gweld y plant wrth eu bodd yn dynwared Barti Ddu a'i gyfoedion wrth chwarae ar y llong! Yn ogystal i'r pethau arferol i fwyta, eleni dyma Steve, rheolwr Tafarn y Gwachel yn rhostio mochyn, buodd yn boblogaidd iawn (yn enwedig gyda'r staff!).

Daeth Gŵyl y Gwach 2014 i ben ar nos Sadwrn, 12fed o Orffennaf, gyda gig i bobl ifanc a phobl ifanc eu hysbryd. Yn perfformio ar y nos bu rhai o fandiau cyfoes Cymraeg Gorau Cymru.

Agorwyd y noson gyda set anhygoel gan Bronwen Lewis (BBC - The Voice), wrth iddi ganu cwpwl o ganeuon gwreiddiol, yn ogystal ag un neu ddau cân traddodiadol. I ddilyn roedd band ifanc o Sir Benfro, enillwyr Brwydr Y Bandiau C2 2013, sef Y Ffug.

Bromas, band ifanc lleol oedd y nesaf i gymryd at y llwyfan gyda set anhygoel.

Y Bandana, un o fandiau gorau Cymru dyma'n dod ar noson i ben gyda pherfformiad gwefreiddiol eto. Braf oedd gweld cymaint o bobl ifanc yn y gynulleidfa, yn enwedig wrth ystyried y tywydd ofnadwy.

Hoffai'r Fenter diolch i drigolion yr ardal am eu cefnogaeth yn ystod yr Wyl, Wal a Jac ar y Sain, Steve a gweddill staff Tafarn y Gwachel, Cyngor Tref Pontardawe am ei chefnogaeth ariannol ac i'r holl wirfoddolwyr am eu gwaith caled yn ystod y penwythnos dyma'n sicrhau Gŵyl y Gwach llwyddiannus iawn unwaith eto! Edrychwn ymlaen yn eiddgar at yr Wyl flwyddyn nesaf.

SBRI DI RI - CYNLLUNIAU CHWARAE PONTARDAWE A CHASTELL-NEDD

Unwaith eto eleni, cynhaliwyd ein Cynlluniau Chwarae Haf yn Ysgol Gymraeg Castell-nedd / Ysgol Gymraeg Pontardawe.

Cafodd y cynlluniau eu cynnal am bythefnos rhwng y 21ain o Orffennaf i 1af o Awst 2014 o dan arweinyddiaeth Catrin Heledd Richards, Carys Llewelyn, Catrin Abraham ac Anwen Harris.

Yn ystod y pythefnos cafodd y plant lu o bethau amrywiol i'w gwneud. Gemau gwahanol i'w chwarae, cyfle i wneud celf a chrefft, cystadlaethau, sioeau talent a llawer mwy! Yn ogystal, cafodd y plant gyfle i fynd i nofio unwaith yr wythnos ym mhwl nofio Castell-nedd yn rhad ac am ddim.

Diolch yn fawr i'r plant a rhieni am eu cefnogaeth unwaith eto, ac i Mr Tudur Jones, Mr Ceri Emanuel, staff a gofalwr yr ysgolion am eu cydweithrediad. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn hefyd i'r staff a'r gwirfoddolwyr am fod mor broffesiynol yn eu gwaith ac am roi'r gofal gorau posib i bob un o'r plant a fynychodd y cynllun yn ystod yr haf.

GŴYL FFILM Y CRINDDAIL 2014

Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â:-
Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot,
Canolfan y Groes, 1 Stryd Fawr, Pontardawe.
Abertawe SA8 4HU
01792 864949
menter@micnpt.org www.micnpt.org

Croeso i dudalen ParnerIAITH Aman Tawe. Dyma flas ar ddigwyddiadau'r BartnerIAITH yn ystod y misoedd diwethaf.

GŴYL FEITHRIN

Ar ddydd Llun, 7fed o Orffennaf trefnwyd Gŵyl Feithrin yn Ysgol Gynradd Gymraeg Dyffryn y Glowyr gan Mudiad Meithrin a Menter Brycheiniog a Maesyfed. Fel rhan o'r digwyddiad roedd Sarah Gwilym a Catrin Richards yn bresennol gyda stonidin PartnerIAITH Aman Tawe. Roedd Dawns Powys wedi dod gyda gweithgareddau i'r plant oedd yn bresennol. Mynychwyd tua 50 o blant a rhieni a wnaeth pawb mwynhau'r canu a dawnio! Cafwyd ymweliad gan Dewin hefyd ac roedd y plant wrth eu modd yn cwrdd â'r cymeriad. Hyfryd oedd gweld pawb yn mwynhau eu hun! Hoffwn ddiolch i'r Mudiad Meithrin a'r Fenter am roi cyfle i PartnerIAITH Aman Tawe cydweithio.



DIGWYDDIADUR CWM TAWE

13 Medi: Taith Gerdded Carreg Cennen Partneriaith Aman Tawe
Yn dechrau o Ganolfan y Mynydd Du, Brynman, Maes parcio Co-op Rhydaman neu Faes parcio Glanaman am 10y.b.

Tocynnau £6 yn cynnwys bws, bwyd ac adloniant yn y Cennen Arms ar ôl y daith. Bydd y bws yn gadael y dafarn am 5 y.h i fynd â'r cerddwyr yn ôl i'r mannau cychwyn.

Am wybodaeth bellach, ffoniwch Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot ar 01792 864949.

19 Medi: Gigs y Gwach! Meic Stevens

Tafarn y Gwachel, 8.30y.h. Mynediad am ddim.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot ar 01792 864949.

4 Hydref: Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
Cynhelir ym Mhrifysgol Abertawe rhwng 10y.b. a 4.30y.h. Cofrestru yn £25 gan gynnwys lluniaeth a chinio. Manylion pellach ar: <http://www.cymdeithasenuwalleoeddcymru.org>

16 Hydref: Cyngerdd Cyhoeddi Gŵyl Gerdd Dant Porthcawl a'r Fro
Eglwys yr Holl Saint, Porthcawl am 6yh.

Cyngerdd i gyhoeddi'r ŵyl gyda pherfformiadau gan ysgolion cyfrwng Gymraeg y fwrdeistref, Cantorion Coety a Dawnsywr Penyfa i a bydd Aelwyd yr Urdd Porthcawl hefyd yn perfformio ac yn datgan cywydd croeso y prifardd Mari George. Tocynnau ar gael o Siop yr Hen Bont, o ysgolion Bwrdeistref Penybont neu wrth y drws. £5 i oedolion, plant am ddim.

17-18 Hydref: Gŵyl Ffilm y Crinddail

Dangosiadau ffilm, gan gynnwys *Dirgelwch yr Ogor*, a gwobrwyo enillwyr Cystadleuaeth Ffilm Fer yr ŵyl. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot ar 01792 864949.

23 Hydref: Kizzy Crawford a mwy!

Yng Nghlwb Cyfansoddiadol Castell-Nedd am 7.30y.h. Mynediad yn £3 y tocyn. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot ar 01792 864949.

Croeso i chi anfon manylion eich digwyddiadau at y Llais er mwyn iddynt gael eu rhestru yma a chael sylw eich cyd-ddarllenwyr. Cysyllter â Gwenno Ffrancon ar 01792 842062 neu gwenno_ffrancon@hotmail.com

CWIS

Sioe gwis newydd S4C – chwilio am barau i gystadlu

Dyma'ch cyfle chi i gystadlu mewn sioe gwis newydd ar S4C, a mentro am wob jacpot posib o £10,000!

Ydych chi'n dda mewn cwis? Does dim ots, achos mae Celwydd Noeth yn gwis heb gwestiynau! Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw adnabod pa ffaith sy'n gelwydd noeth.


Ym mhob rownd, byddwch yn derbyn rhestr o ffeithiau, ac yn eu plith bydd un sy'n gelwydd.

Os llwyddwch chi i ddod o hyd i'r ffaith sy'n gelwydd, yna byddwch yn symud ymlaen at y rownd nesa' ac yn ennill mwy o arian. Dim ond drwy ddyfalu pob celwydd yn gywir, a chyrraedd y rownd olaf ar ben y daith, y gallwch chi geisio hawlio'r prif jacpot.

Mae'r cwmni cynhyrchu, Cwmni Da, yn chwilio am barau mentrus i gystadlu mewn tîm: parau priod, cariadon, ffrindiau, cydweithwyr, brodry, chwirydd. Gyda'ch gilydd bydd angen i chi fod yn barod i fentro, a gydag ychydig o lwc o'ch plaid, fe all swm sylweddol fod o fewn eich gafael.

Bydd y gyfres yn cael ei recordio ar benwythnos 27, 28 a 29 Medi, 2014. Mae'n rhaid bod yn 18 oed neu'n hŷn i gymryd rhan ac mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

Am ragor o wybodaeth neu gynnig eich enw i gymryd rhan, cysylltwch â Cwmni Da 01286 685 300 neu celwydd.noeth@cwmnida.tv



RYSAIT

O'r *The Great British Bake Off* i'r Becws – Beca'n pobi ar S4C

Mae Beca Lyne-Pirkis yn hoffi pobi – ac yn dda iawn am wneud! Daeth Beca o fewn trwch blewyn i gyrraedd rownd derfynol cyfres boblogaidd *The Great British Bake Off* ar y BBC y llynedd.

Ond o ble ddaeth y ddawn? Sut y gwnaeth hi ddysgu sut i bob mor dda? Ac o ble mae hi wedi etifeddu'r ryseitiau?

Yn y gyfres newydd *Becws*, sy'n dechrau ar S4C nos lau 11 Medi am 8.25, awn ar daith gyda Beca i gwrdd â'r teulu a'r ffrindiau sydd wedi ei dylanwadu.

O'i dinas enedigol Caerdydd, i gartref rhai o'i theulu yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin. I Lundain i gwrdd â'i brawd, sydd wastad yn dod â gwên i'w wyneb, ac i gwrdd â gwagedd y fyddin yn Aldershot, ble mae gŵr Beca'n gweithio.

Ar hyd y ffordd, bydd hi'n rhannu ryseitiau blasus – melys a sawrus – i chi eu trio yn eich cegin eich hunain.

Am damaid i aros pryd, beth am i chi roi cynnig ar rysait bendigedig Beca ar gyfer Macarŵns Pistasio a Chnau Coco blas Oren a Rhosyn:

Macarŵns Pistasio a Chnau Coco blas Oren a Rhosyn
Digon i wneud 15

Cynhwysion

- 100g o Siwgr Eisin, a rhywfaint dros ben ar gyfer ei daenu
- 100g o Gnaw Coco Wedi Sychu
- 35g o Gnau Pistasio
- 20g o Almonau Mâl
- 2 Wynwy Mawr
- Pinsiad o Halen
- 1 llwy de o Rin Rhosyn
- Croen 1 Oren Mawr

Dull

- Gosodwch y popty i wres Nwy 3/160 Celsiws ac iro un hambwrdd pobi mawr neu dau hambwrdd pobi bach gydag ychydig o fenyn heb halen.
- Malwch y 35g o gnau pistasio mewn malwr ffa coffi/perlysiâu tan eu bod yn fân a'u rhoi mewn powlen gymysgu maint canolig.
- Ychwanegwch y siwgr eisin, almonau mâl, cnau coco a'r croen oren at y cnau pistasio a chymysgu'r cyfan yn drwyadl gyda chwistg llaw/chwistg balŵn.
- Ychwanegwch yr halen at y gwynwy a chwistgo'r cyfan nes ei fod yn stiff. Ychwanegwch y rhin rhosyn tuag at ddiwedd y chwistgo.
- Ychwanegwch y gwynwy wedi'i chwistgo at y gymysgedd cnau pistasio fesul cam nes bod y ddau gymysgedd yn un. Gofalwch rhag cymysgu ormod.
- Defnyddiwch llwy de i roi'r gymysgedd ar yr hambwrdd pobi, gan wneud yn siŵr bod digon o le rhwng pob un.
- Pobwch am 12 munud, neu nes eu bod wedi tostio ychydig.
- Gadewch iddynt oeri ar yr hambwrdd pobi cyn eu codi gyda chylllell palet/sbatwla.
- Rhowch ddigonedd o siwgr eisin ar eu pennau a mwynhewch!

Becws

Yn dechrau nos lau, 11 Medi am 8.25, S4C
s4c.co.uk



GWOBRAU DEWI SANT 2015

Y chwilio'n dechrau am y gorau o Gymru

Ydych chi'n adnabod rhywun yn eich ardal yng Nghymru sydd wedi gwneud rhywbeth eithriadol? Pobl sy'n gwneud eu gorau ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr? Oes gennych gymydog sy'n gwneud mwy na'r disgwyl? Oes rhywun yn haeddu cydnabyddiaeth genedlaethol, yn amlwg wedi cyflawni rhywbeth arbennig yn eich barn chi? Ydych chi'n edmygu pobl sydd efallai'n byw dramor ond yn gwneud eu gorau i hyrwyddo Cymru ar lwyfan rhyngwladol? Pobl mewn tîm neu gymdeithas sy'n cael effaith enfawr?

Agorwyd yr enwebiadau ar gyfer Gwobrau Dewi Sant 2015 gan Brif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, ar 21 Gorffennaf a galwodd ef ar bawb i fachu'r cyfle unwaith eto i gydnabod pobl eithriadol yn eu cymunedau.

Mae'r Gwobrau Dewi Sant blynyddol yn cydnabod ac yn dathlu llwyddiannau eithriadol pobl yng Nghymru. Maent yn cydnabod pobl sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n cymunedau a'n gwlad. Maent yn arwyddion o ragoriaeth sylweddol a dyma'r anrhydeddau uchaf y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi i ddinasyddion yn genedlaethol.

Mae naw categori o wobrau; 1. Dinasyddiaeth; 2. Dewrder; 3. Diwylliant; 4. Menter; 5. Arloesedd a thechnoleg; 6. Chwaraeon; 7. Gwobr person ifanc; 8. Gwobr ryngwladol a 9. Gwobr Arbennig y Prif Weinidog, a ddewisir gan y Prif Weinidog ei hunan.

Meddai Carwyn Jones: "Roedd seremoni wobrwyo'r llynedd yn brofiad cwbl arbennig ac ysbrydoledig. Roedd y talent, y brwdfrydedd a'r haelioni a welais ym mhob rhan o Gymru yn wfreiddiol i mi.

"Rwy'n edrych ymlaen at ddechrau chwilio nawr am enillwyr y flwyddyn nesaf. Wrth weld y gydnabyddiaeth a roddwyd i enillwyr y llynedd, rwy'n gobeithio y bydd pobl yn penderfynu enwebu rhywun y maen nhw'n adnabod, sy'n haeddu'r anrhydedd mawr hwn."

Ewch i www.gwobraudewisant.org.uk i enwebu ac am wybodaeth bellach. Mae enwebiadau'n cau ar 28 Hydref 2014. Cyhoeddir yr enillwyr mewn seremoni fawr ar 12 Mawrth 2015.

Non Jones

Tîm Cyfathrebu'r Cabinet

Adran Cyfathrebu, Llywodraeth Cymru

Ffôn: 029 2082 3942 E-bost: non.jones@wales.gsi.gov.uk